# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Committee Room 4 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Llun, 30 Tachwedd 2020

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.Senedd.TV**

**Rhag-gyfarfod anffurfiol (09.00 - 09.30)**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

09.30

## 2 Offerynnau a ystyriwyd yn flaenorol i'w sifftio ac sy'n awr yn destun craffu o dan Reolau Sefydlog 21.2 a 21.3

09.30-09.35

Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad negyddol

**2.1 SL(5)658 - Rheoliadau Maethiad (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020**

(Tudalennau 1 - 14)

**CLA(5)-35-20 - Papur 1** - Adroddiad

**CLA(5)-35-20 - Papur 2** - Rheoliadau

**CLA(5)-35-20 - Papur 3** - Memorandwm Esboniadol

## 3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

09.35-09.40 (Tudalen 15)

**CLA(5)-35-20 - Papur 4** - Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol

3.1 **SL(5)661 – Rheoliadau Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020**

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 a 21.3

09.40-09.45

Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad negyddol

4.1 **SL(5)666 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol (Cymru) (Diwygio) (Rhif 20) 2020**

(Tudalennau 16 - 37)

**CLA(5)-35-20 – Papur 5** – Adaroddiad

**CLA(5)-35-20 – Papur 6** – Rheoliadau

**CLA(5)-35-20 – Papur 7** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-35-20 – Papur 8** – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 20 Tachwedd 2020

**CLA(5)-35-20 – Papur 9** – Datganiad ysgrifenedig, 19 Tachwedd 2020

## 5 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

09.45-09.50

5.1 **SL(5)651 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) 2020**

(Tudalennau 38 - 41)

**CLA(5)-35-20 – Papur 10** – Adroddiad

**CLA(5)-35-20 – Papur 11** – Ymateb Llywodraeth Cymru

5.2 **SL(5)652 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2020**

(Tudalennau 42 - 45)

**CLA(5)-35-20 – Papur 12** – Adroddiad

**CLA(5)-35-20 – Papur 13** – Ymateb Llywodraeth Cymru

**5.3 SL(5)660 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2020**

(Tudalennau 46 – 49)

**CLA(5)-35-20 – Papur 14** – Adroddiad

**CLA(5)-35-20 – Papur 15** – Ymateb Llywodraeth Cymru

## 6 Papurau i'w nodi

09.50-09.55

**6.1 Llythyr gan y Prif Weinidog: Hygyrchedd a dealltwriaeth y cyhoedd o reoliadau'r Coronafeirws yng Nghymru**

(Tudalennau 50 – 51)

**CLA(5)-35-20 – Papur 16** – Llythyr gan y Prif Weinidog, 20 Tachwedd 2020

**6.2 Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) 2020**

(Tudalennau 52 – 54)

**CLA(5)-35-20 – Papur 17 –** Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 20 Tachwedd 2020

**CLA(5)-35-20 – Papur 18** – Llythyr at y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 6 Tachwedd 2020

**6.3 Llythyr gan y Prif Weinidog: Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020**

(Tudalen 55)

**CLA(5)-35-20 – Papur 19** – Llythyr gan y Prif Weinidog, 24 Tachwedd 2020

**6.4 Llythyr gan y Prif Weinidog: Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020**

(Tudalennau 56 – 59)

**CLA(5)-35-20 – Papur 20** – Llythyr gan y Prif Weinidog, 25 Tachwedd 2020

**CLA(5)-35-20 – Papur 21** – Llythyr at y Prif Weinidog, 4 Medi 2020

**6.5 Llythyr gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip: Y Ddyletswydd Gymdeithasol-economaidd**

(Tudalennau 60 – 61)

**CLA(5)-35-20 – Papur 22** – Llythyr gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, 25 Tachwedd 2020

6.6 **Llythyr gan y Prif Weinidog: Gwneud i Gyfiawnder weithio yng Nghymru**

(Tudalennau 62 – 70)

**CLA(5)-35-20 – Papur 23** – Llythyr gan y Prif Weinidog, 25 Tachwedd 2020

**CLA(5)-35-20 – Papur 24** – Llythyr at y Prif Weinidog, 22 Hydref 2020

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

09.55

## 8 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Masnach – trafod yr adroddiad drafft.

09.55-10.10 (Tudalennau 71 – 80)

**CLA(5)-35-20 – Papur 25** – Adroddiad drafft

## 9 Y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) – trafod yr adroddiad drafft

10.10-10.25 (Tudalennau 81 – 140)

**CLA(5)-35-20 – Papur 26** – Adroddiad drafft

## 10 Craffu ar reoliadau a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 – Diweddariad

10.25-10.30 (Tudalennau 141 – 142)

**CLA(5)-35-20 – Papur 27** – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 25 Tachwedd 2020

## 11 Bil Marchnad Fewnol y DU – y wybodaeth ddiweddaraf

10.30-10.40 (Tudalennau 143 – 158)

**CLA(5)-35-20 – Papur 28** – Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

## Dyddiad y cyfarfod nesaf – 7 Rhagfyr 2020

# SL(5)658 - Rheoliadau Maethiad (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

## Cefndir a Diben

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan baragraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, er mwyn ymdrin â diffygion sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau'n gwneud diwygiadau mân a thechnegol i Reoliadau Maethiad (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 i sicrhau bod y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hynny i is-ddeddfwriaeth i Gymru ym maes maethiad yn gweithredu'n effeithiol ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

Daw'r Rheoliadau hyn i rym yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu, am 11.00 pm ar 31 Rhagfyr 2020.

## Gweithdrefn

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd.

Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron y Senedd ar gyfer sifftio yn unol â pharagraff 4 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Cytunodd y Pwyllgor mai gweithdrefn negyddol yw'r weithdrefn briodol ar gyfer y Rheoliadau hyn.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Ac eithrio'r rhai a nodir uchod, ni nodir unrhyw oblygiadau eraill i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**20 Tachwedd 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 1252 (Cy. 284)

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

# BWYD, CYMRU

# Rheoliadau Maethiad (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau ym mharagraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16), er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau Maethiad (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/179 (Cy. 45)) er mwyn sicrhau bod y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hynny i is-ddeddfwriaeth i Gymru ym maes maethiad yn gweithredu'n effeithiol ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

Ni luniwyd asesiad effaith ar gyfer yr offeryn hwn gan na ragwelir y bydd unrhyw effaith, neu unrhyw effaith sylweddol, ar y sector preifat na'r sector gwirfoddol.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 1252 (Cy. 284)

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Maethiad (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

*Gofynion sifftio wedi eu bodloni* *9 Tachwedd 2020*

*Gwnaed* *10 Tachwedd 2020*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* *12 Tachwedd 2020*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(**1**).

Mae gofynion paragraff 4(2) o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno (sy'n ymwneud â'r weithdrefn graffu briodol ar gyfer y Rheoliadau hyn) wedi eu bodloni.

Cynhaliwyd ymgynghoriad fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**2**).

Fel sy'n ofynnol gan baragraff 4(a) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018,

(**1**) 2018 p. 16.
(**2**) OJ Rhif L 31, 1.2.2002, t. 1, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 596/2009 (OJ Rhif L 188, 18.7.2009, t. 14).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ymgynghorwyd â'r Ysgrifennydd Gwlad wrth lunio'r Rheoliadau hyn.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Maethiad (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu

**Diwygiadau i Reoliadau Maethiad (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Maethiad (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 7 (diwygio Rheoliadau Bwyd at Ddefnydd Maethol Neilltuol (Ychwanegu Sylweddau at Ddibenion Maethol Penodol) (Cymru) 2009), ym mharagraff (2)(b), yn lle ", Safonau Bwyd yr Alban neu'r Asiantaeth Safonau Bwyd yng Ngogledd Iwerddon" rhodder "neu Safonau Bwyd yr Alban".

(3) Yn rheoliad 8 (diwygio Rheoliadau Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Gofynion o ran Gwybodaeth a Chyfansoddiad) (Cymru) 2016)—

(a) hepgorer paragraff (2);

(b) ym mharagraff (3), yn y geiriau a amnewidir, yn lle "y DU" rhodder "Prydain Fawr".

*Eluned Morgan*
Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg, un o Weinidogion Cymru
10 Tachwedd 2020

(**1**) O.S. 2019/179 (Cy. 45).

**Explanatory Memorandum to the Nutrition (Miscellaneous Amendments) (Wales) (EU Exit) Regulations 2020**

This Explanatory Memorandum has been prepared by the Health and Social Services Group and is laid before Senedd Cymru in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1.

**Minister/Deputy Minister's Declaration**

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of the Nutrition (Miscellaneous Amendments) (Wales) (EU Exit) Regulations 2020.

I have made the statements required by the European Union (Withdrawal) Act 2018. The statements can be found in Part 2 of the annex to this memorandum.

Eluned Morgan MS
**Minister for Mental Health, Wellbeing and the Welsh Language**
**12 November 2020**

## PART 1

### 1. Description

1.1. The Nutrition (Miscellaneous Amendments) (Wales) (EU Exit) Regulations 2020 ("this Instrument") amend the Nutrition (Miscellaneous Amendments) (Wales) (EU Exit) Regulations 2019 ("the 2019 instrument") to ensure a workable enforcement regime remains in Wales following the end of the transition period ("TP") on 31 December 2020. This instrument also reflects the Protocol on Ireland/Northern Ireland ("NIP") and removes or replaces references which as a consequence of the NIP are no longer applicable.

**1.2.** The instrument comes into force immediately before Implementation Period ("IP") completion date (11pm 31 December 2020).

### 2. Matters of special interest to the Legislation, Justice and Constitution Committee

2.1 This instrument is being made using the powers conferred by paragraph 1(1) of Schedule 2 to the European Union (Withdrawal) Act 2018 ("the 2018 Act").

2.2 As set out in the Ministerial statement in the annex to this Explanatory Memorandum it is proposed that the instrument be subject to the negative procedure. As required by the 2018 Act, the instrument was considered for sifting by the Legislation, Justice and Constitution Committee on 9 November and the Committee was satisfied that the Regulations should be subject to the negative procedure. The instrument will therefore be subject to the negative procedure. A link to the LJC Committee's report can be found at: https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld1392/cr-ld1392-e.pdf.

### 3. Legislative background

3.1 This instrument is being made using the power in Part 1 of Schedule 2 to the European Union (Withdrawal) 2018 Act in order to address failures of retained EU law to operate effectively or other deficiencies arising from the withdrawal of the United Kingdom from the European Union.

The 2019 Instrument, which comes into force on IP completion date, was made to remedy deficiencies in domestic nutrition legislation ("Welsh Regulations") arising from the withdrawal of the UK from the EU. This instrument amends the 2019 Instrument to reflect the Protocol on Ireland/Northern Ireland (NIP). This instrument does not amend EU law.

In accordance with the requirements of that Act the Minster has made the relevant statements as detailed in Part 2 of the Annex to this Explanatory Memorandum.

## 4. Purpose and intended effect of the legislation

4.3 The 2019 Instrument amended domestic legislation which established the enforcement regime for obligations arising from EU Nutrition related labelling, composition and standards law to ensure it remained workable in the event the UK left the EU without a deal.

4.4 The amendments were technical in nature replacing for example references to EU institutions to UK institutions. No new powers were granted to the Welsh Ministers.

4.5 This instrument amends the 2019 Instrument to reflect the Protocol on Ireland/Northern Ireland (NIP) to remove references to the Food Standards Agency in Northern Ireland and, replace references to the UK with GB. The references which are subject to correction do not make any substantive change to the way the Welsh Regulations operate. This instrument only makes minor, technical amendments to ensure the Welsh Regulations are operable following the end of the TP. **This instrument does not amend EU law.**

## 5. Consultation

5.1 A three-week consultation was conducted in Wales on the principle of the proposed amendments in September. No responses were received. Parallel consultation on their equivalent domestic regulations were conducted in England, Scotland and Northern Ireland. All responses received in relation to the domestic fixes were in favour of the approach proposed.

5.2 As set out in paragraph 4(a) of Schedule 2 to the European Union (Withdrawal) Act 2018 officials also consulted the Secretary of State for Health in the UK Government on proposals to implement this Instrument. No comments nor objections were required from the Secretary of State for Health.

5.3 No amendments to this Instrument were made as a consequence of the consultation.

## 6. Regulatory Impact Assessment (RIA)

6.1 No impact assessment has been produced in relation to these Regulations as no impact on the private, voluntary or public sectors is

foreseen. This legislation has no impact on the statutory duties (sections 77-79 of the Government of Wales Act 2006) or statutory partners (sections 72-75 of the Government of Wales Act 2006).

# Annex 1
# Statements under the European Union (Withdrawal) Act 2018

## Part 1
## Table of Statements under the 2018 Act

This table sets out the statements that may be required of the Welsh Ministers under the 2018 Act. The table also sets out those statements that may be required of Ministers of the Crown under the 2018 Act, which the Welsh Ministers have committed to also provide when required. The required statements can be found in Part 2 of this annex.

| Statement | Where the requirement sits | To whom it applies | What it requires |
|---|---|---|---|
| Sifting | Paragraphs 3(7) and 4(3), Schedule 7<br><br>*Paragraph 3(7) (anticipated to be a requirement on Welsh Ministers in Standing Orders)* | The Welsh Ministers exercising powers in Part 1 of Schedule 2 to make a Negative SI<br><br>Paragraph 3(7) applies to Ministers of the Crown, but Welsh Ministers have committed to make the same statement | A statement to explain why the instrument should be subject to the negative procedure and, if applicable, why they disagree with the recommendation of the LJC Committee (as sifting committee) |
| Appropriate-ness | Sub-paragraph (2) of paragraph 28, Schedule 7 | Applies to Ministers of the Crown exercising powers in sections 8(1), 9 and 23(1) or jointly exercising powers in Schedule 2. Welsh Ministers have committed to make the same statement when exercising powers in Schedule 2 | A statement that the SI does no more than is appropriate. |
| Good Reasons | Sub-paragraph (3) of paragraph 28, Schedule 7 | Applies to Ministers of the Crown exercising powers in sections 8(1), 9 and 23(1) or jointly exercising powers in Schedule 2. Welsh Ministers have | A statement to explain the good reasons for making the instrument and that what is being done is a reasonable course of action. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | committed to make the same statement when exercising powers in Schedule 2 | |
| Equalities | Sub-paragraphs (4) and (5) of paragraph 28, Schedule 7 | Applies to Ministers of the Crown exercising powers in sections 8(1), 9 and 23(1) or jointly exercising powers in Schedule 2. Welsh Ministers have committed to make the same statement when exercising powers in Schedule 2 | A statement to explain what, if any, amendment, repeals or revocations are being made to the Equalities Acts 2006 and 2010 and legislation made under them.<br><br>A statement that the Minister has had due regard to the need to eliminate discrimination and other conduct prohibited under the Equality Act 2010. |
| Explanations | Sub-paragraph (6) of paragraph 28, Schedule 77 | Applies to Ministers of the Crown exercising powers in sections 8(1), 9 and 23(1) or jointly exercising powers in Schedule 2. Welsh Ministers have committed to make the same statement when exercising powers in Schedule 2 | A statement to explain the instrument, identify the relevant law before exit day, explain the instrument's effect on retained EU law and give information about the purpose of the instrument, e.g. whether minor or technical changes only are intended to the EU retained law. |
| Criminal offences | Sub-paragraphs (3) and (7) of paragraph 28, Schedule 7 | Applies to Ministers of the Crown exercising powers in sections 8(1), 9 and 23(1) or jointly exercising powers in Schedule 2. Welsh Ministers have committed to make the same statement when exercising powers in Schedule 2 | A statement setting out the 'good reasons' for creating a criminal offence, and the penalty attached. |
| Sub-delegation | Paragraph 30, Schedule 7 | Applies to Ministers of the Crown exercising powers in sections 18(1), 9 and paragraph 1 of Schedule 4 to create a legislative power exercisable not by a Minister of the Crown or a Devolved | A statement to explain why it is appropriate to create such a sub-delegated power. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Authority.<br><br>Welsh Ministers have committed to make the same statement when exercising powers in Schedule 2 or paragraph 1 of Schedule 4 to create a legislative power exercisable not by a Minister of the Crown or a Devolved Authority | |
| Urgency | Sub-paragraph (2) and (8) of paragraph 7, Schedule 7 | Welsh Ministers exercising powers in Part 1 of Schedule 2 but using the urgent procedure in paragraph 7 of Schedule 7 | A statement that the Welsh Ministers are of the opinion that it is necessary to make the SI using the urgent procedure and the reasons for that opinion. |

# Part 2

## Statements required when using enabling powers under the European Union (Withdrawal) 2018 Act

### 1. Sifting statement(s)

The Minister for Mental Health, Wellbeing and the Welsh Language has made the following statement regarding use of legislative powers in the European Union (Withdrawal) Act 2018:

"In my view the Nutrition (Miscellaneous Amendments) (Wales) (EU Exit) Regulations 2020 should be subject to annulment in pursuance of a resolution of the Welsh Parliament (i.e. the negative procedure). This is the case because the changes being made are minor and technical in nature. There is no change to policy."

### 2. Appropriateness statement

The Minister for Mental Health, Wellbeing and the Welsh Language has made the following statement regarding use of legislative powers in the European Union (Withdrawal) Act 2018:

"In my view the Nutrition (Miscellaneous Amendments) (Wales) (EU Exit) Regulations 2020 do no more than is appropriate. This is the case because all the changes being made are solely in order to address inoperabilities arising from EU exit. There is no change to policy."

### 3. Good reasons

The Minister for Mental Health, Wellbeing and the Welsh Language has made the following statement regarding use of legislative powers in the European Union (Withdrawal) Act 2018:

"In my view there are good reasons for the provisions in this instrument, and I have concluded they are a reasonable course of action. These are that failure to make this legislation would result in Welsh legislation relating to nutrition, composition and labelling failing to operate effectively after the UK leave the EU."

### 4. Equalities

The Minister for Mental Health, Wellbeing and the Welsh Language has made the following statement:

"The instrument does not amend, repeal or revoke a provision or provisions in the Equality Act 2006 or the Equality Act 2010 or subordinate legislation made under those Acts."

The Minister for Mental Health, Wellbeing and the Welsh Language has made the following statement regarding use of legislative powers in the European Union (Withdrawal) Act 2018:

"In relation to the instrument, I, Eluned Morgan MS**,** Minister for Mental Health, Wellbeing and the Welsh Language, have had due regard to the need to eliminate discrimination, harassment, victimisation and any other conduct that is prohibited by or under the Equality Act 2010."

## 5. Explanations

The explanations statement has been made in paragraph 4 (Purpose and intended effect of the legislation) of the main body of this explanatory memorandum.

## 6. Criminal offences

Not applicable/required.

## 7. Legislative sub-delegation

Not applicable/required.

## 8. Urgency

Not applicable/required.

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir

# 30 Tachwedd 2020

## SL(5)661 – Rheoliadau Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae Rheoliadau Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 ("y Rheoliadau") yn diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019, sydd yn eu tro yn diwygio Rheoliadau Deunyddiau Atgenhedlol y Goedwig (Prydain Fawr) 2002 a Rheoliadau Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) (Ffioedd) (Cymru) 2019.

Mae'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau yn gweithredu penderfyniadau Prydain Fawr ar gywerthedd deunyddiau atgenhedlol y goedwig a gynhyrchir mewn gwledydd y tu allan i Brydain Fawr ac maent yn nodi'r gofynion diwygiedig sy'n berthnasol yng Nghymru. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn cynnal safonau deunyddiau atgenhedlol y goedwig a fewnforir a bioddiogelwch cysylltiedig.

Mae'r diwygiadau hyn yn angenrheidiol i adlewyrchu sefyllfa Cymru ym Mhrydain Fawr ar ddiwedd y cyfnod pontio yn deillio o ymadawiad y DU â'r UE, ac maent yn cynnal cydweddiad â'r gyfraith yn Lloegr a'r Alban. Mae'r diwygiadau yn dechnegol eu natur heb unrhyw newidiadau i bolisi.

Mae angen diweddaru'r offerynnau uchod a ragflaenodd y Cytundeb Ymadael rhwng y DU a'r UE, ac mae angen diwygiadau pellach i gyfraith yr UE a ddargedwir i sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol ar ddiwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu.  Mae angen eu diwygio hefyd i ganiatáu ar gyfer gweithrediad Protocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon mewn perthynas â Forestry Reproductive Material (Northern Ireland) Regulations 2002. Mae'r offeryn hwn hefyd yn dileu diwygiadau i Orchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) 2005 a ddisodlwyd gan Reoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020.

Daw rheoliadau 1, 2, 3 a 5 i rym yn union cyn diwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu, a ddiffinnir yn adran 39 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020 fel 11pm ar 31 Rhagfyr 2020. Daw Rheoliadau 4 a 6 i rym ar ddiwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020
**Fe'u gwnaed ar:**
**Fe'u gosodwyd ar:**
**Yn dod i rym ar:**

Eitem 4.1

# SL(5)666 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 20) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") er mwyn ychwanegu Bonaire, Sint Eustatius a Saba, Cymanwlad Ynysoedd Gogledd Mariana, Dinas Jerwsalem, Gweriniaeth Namibia, Gweriniaeth Rwanda, Israel, Sri Lanka, Uruguay ac Ynysoedd y Wyryf yr Unol Daleithiau at y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt yn y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ac i wneud darpariaethau trosiannol. Ni fydd yn ofynnol i deithwyr o'r gwledydd, y tiriogaethau a'r rhannau o wledydd hyn ynysu wrth gyrraedd Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn:-

- diwygio rheoliad 4 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gofyniad i ddarparu gwybodaeth am deithwr) sy'n ei gwneud yn ofynnol bod gwybodaeth am deithiwr yn cael ei darparu wrth gyrraedd Cymru, neu cyn cyrraedd Cymru;
- diwygio Atodlen 2 (pobl esempt) i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, gan gynnwys:
    - yr eithriad o ran cynrychiolwyr mewn cynadleddau rhyngwladol neu gynadleddau'r DU, er mwyn egluro bod y cyfeiriad at gynadleddau at y cynadleddau hynny a gaiff eu cynnal yn y DU;
    - yr eithriad o ran gweision i'r Goron a chontractwyr y llywodraeth;
    - i ychwanegu eithriad newydd ar gyfer gweithwyr telathrebu tanfor; a
- gwneud diwygiadau amrywiol i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, gan gynnwys cywiriad i destun Cymraeg y Rheoliadau hynny i unioni pwynt technegol a godwyd gan y Pwyllgor yn ei adroddiad ar Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif. 2) (Cymru) 2020.

Daeth y Rheoliadau hyn i rym am 4.00 am ar 21 Tachwedd 2020.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau hyn o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) - ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae Atodlen 2 (pobl esempt) i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn eithrio rhai categorïau o weithwyr rhag gorfod darparu gwybodaeth am deithiwr a rhag gorfod ynysu.

Mae Rheoliad 6(5) o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod categori newydd o bobl esempt fel paragraff 39 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, sef:

> *"Person -*
>
> *(a) sy'n ymwneud â gosod, cynnal a chadw neu atgyweirio seilwaith telathrebu ffibr optig tanfor,*
>
> *(b) y mae ei rôl yn cefnogi yn uniongyrchol y gwaith o osod, cynnal a chadw neu atgyweirio seilwaith telathrebu ffeibr optig tanfor,*
>
> *pan fo wedi teithio i'r Deyrnas Unedig yng nghwrs ei waith."*

Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn nodi y "*Gwneir y diwygiadau ychwanegol i'r esemptiadau ar sail sector … gan ychwanegu esemptiad newydd ar gyfer gweithwyr telathrebu tanfor*".

Mae Rheoliad 9(2)(b) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn darparu nad yw rheoliad 7 a rheoliad 8 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, sy'n cynnwys y gofynion i hunan-ynysu, yn gymwys i berson a ddisgrifir ym mharagraff 2 i baragraff 38 o Atodlen 2. Er mwyn rhoi effaith i baragraff 39 sydd newydd ei fewnosod, mae'n ymddangos bod angen diwygio rheoliad 9(2) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i gynnwys cyfeiriad at baragraff 39.

Gofynnir am ymateb Llywodraeth Cymru.

## Rhinweddau: craffu

Mae'r 6 phwynt a ganlyn wedi'u nodi i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn esboniad y Llywodraeth a gynhwysir yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Mae'r cyngor sydd bellach wedi dod i law oddi wrth y Gydganolfan Bioddiogelwch yn dangos bod y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil mynychder a lledaeniad y coronafeirws*

*wedi lleihau yn Bonaire, Sint Eustatius a Saba, Israel, Dinas Jerwsalem, Namibia, Ynysoedd Gogledd Mariana, Rwanda, Sri Lanka, Uruguay ac Ynysoedd y Wyryf yr Unol Daleithiau."*

Ymhellach, yn y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn mae Llywodraeth Cymru yn nodi:

*Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith fod hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn gysylltiedig â'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol; mae'r Llywodraeth o'r farn eu bod yn gymesur a hefyd yn gyfiawn at ddiben atal lledaeniad haint a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."

Mewn llythyr at y Llywydd oddi wrth Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd dyddiedig 20 Tachwedd 2020, eglurir hefyd:

*"Oherwydd natur frys y Rheoliadau, ni chynhaliwyd ymgynghoriad."*

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fynd heibio rhwng y dyddiad y gosodir offeryn penderfyniad negyddol gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol a roddodd Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 20 Tachwedd 2020.

Yn benodol, nodwn y canlynol yn y llythyr:

*"Mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod yn galluogi'r Rheoliadau hyn i ddod i rym cyn gynted â phosibl, ac o ystyried newid yn y dystiolaeth ynghylch risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn."*

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Wrth ystyried y Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) 2020 a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol)

(Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2020, adroddodd y Pwyllgor am y diffyg asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y Rheoliadau hynny a'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'r adroddiadau mewn perthynas â Rheoliadau Rhif 18 a Rhif 19 ar 24 Tachwedd 2020. Yn benodol, nodwn y canlynol:

> "*Mae Rheoliadau wedi eu gwneud i ymateb i argyfwng iechyd y cyhoedd, felly ni fu'n bosibl llunio a chyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ochr yn ochr â hwy. Caiff Asesiad Effaith Integredig o'r gofynion i ynysu ar gyfer teithio rhyngwladol ei gyhoeddi maes o law.*"

**5. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae Rheoliad 6(2) o'r Rheoliadau hyn yn amnewid paragraff 13 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, sy'n esemptio categorïau penodol o weithwyr rhag gorfod ynysu wrth ddychwelyd i Gymru.

Cyn eu diwygio gan y Rheoliadau hyn, roedd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn diffinio "gwaith hanfodol y llywodraeth" fel "*gwaith sydd wedi'i ddynodi felly gan Weinidogion Cymru neu'r Adran neu'r cyflogwr perthnasol*". Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r diffiniad hwnnw fel nad oes cyfeiriad at Weinidogion Cymru, ac felly dim ond "yr Adran berthnasol" sy'n gwneud dynodiadau. Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn egluro pam nad yw'r pŵer i ddynodi gwaith hanfodol y llywodraeth bellach yn ofyniad ar Weinidogion Cymru.

Gofynnir am ymateb Llywodraeth Cymru.

**6. Rheol Sefydlog 21.3(v) - nad yw'n gwireddu ei amcanion polisi yn berffaith**

Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

> *"Gwneir y diwygiadau ychwanegol canlynol i'r esemptiadau ar sail sector o'r gofynion i ddarparu gwybodaeth am deithwyr a hunanynysu: …. diwygio'r esemptiad ar gyfer gweision i'r Goron a chontractwyr llywodraeth i ehangu ei gwmpas a'i wneud yn gymwys i'w dibynyddion."*

Nid yw'n glir sut mae'r Rheoliadau hyn yn darparu naill ai i'r esemptiad fod yn ehangach ei gwmpas, a sut maent yn cynnwys dibynyddion gweision i'r Goron a chontractwyr llywodraeth.

Gofynnir am ymateb Llywodraeth Cymru.

## Y goblygiadau yn sgîl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

O ystyried yr amgylchiadau presennol o ran y coronafeirws, mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**25 Tachwedd 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

## 2020 Rhif 1329 (Cy. 295)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 20) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"). Diwygiwyd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn flaenorol gan:

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 (O.S. 2020/595) (Cy. 136);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/714) (Cy. 160);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/726) (Cy. 163);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/804) (Cy. 177);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (O.S. 2020/817) (Cy. 179);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 (O.S. 2020/840) (Cy. 185);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 (O.S. 2020/868) (Cy. 190);

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (O.S. 2020/886) (Cy. 196);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020 (O.S. 2020/917) (Cy. 205);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) 2020 (O.S. 2020/944) (Cy. 210);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2020 (O.S. 2020/962) (Cy. 216);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 10) 2020 (O.S. 2020/981) (Cy. 220);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) 2020 (O.S. 2020/1015) (Cy. 226);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020 (O.S. 2020/1042) (Cy. 231);
- Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor, y Gymanwlad a Datblygu) 2020 (O.S. 2020/942);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) 2020 (O.S. 2020/1080) (Cy. 243);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14) 2020 (O.S. 2020/1098) (Cy. 249);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 15) 2020 (O.S. 2020/1133) (Cy. 258);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 16) 2020 (O.S. 2020/1165) (Cy. 263);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 17) 2020 (O.S. 2020/1191) (Cy. 269);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) 2020 (O.S. 2020/1223) (Cy. 277);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2020 (O.S. 2020/1232) (Cy. 278);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1237) (Cy. 279);

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1288) (Cy. 286).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau. Mae gofynion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio. Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Cyfeirir at y gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 fel "gwledydd a thiriogaethau esempt".

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn ychwanegu Bonaire, Sint Eustatius a Saba, Cymanwlad Ynysoedd Gogledd Mariana, Dinas Jerwsalem, Gweriniaeth Namibia, Gweriniaeth Rwanda, Israel, Sri Lanka, Uruguay ac Ynysoedd y Wyryf yr Unol Daleithiau at y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt.

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â'r newid yn statws y gwledydd a'r tiriogaethau hyn. Mae'r ddarpariaeth drosiannol yn ymdrin â maes a all fod yn destun amheuaeth o ran effaith y diwygiadau a wneir gan reoliad 2 o'r Rheoliadau hyn ar weithredu'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 4 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gofyniad i ddarparu gwybodaeth am deithiwr) sy'n ei gwneud yn ofynnol i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ar long neu awyren i ddarparu gwybodaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol bod gwybodaeth am deithiwr yn cael ei darparu wrth gyrraedd Cymru, neu cyn cyrraedd Cymru.

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 2 (personau esempt) i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae Atodlen 2 i'r Rheoliadau hynny yn esemptio categorïau penodol o weithwyr rhag gorfod darparu gwybodaeth am deithiwr a rhag gorfod ynysu.

Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau amrywiol i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 1329 (Cy. 295)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 20) 2020

*Gwnaed am 3.02 p.m. ar 20 Tachwedd 2020*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru am 7.00 p.m. ar 20 Tachwedd 2020*

*Yn dod i rym am 4.00 a.m. ar 21 Tachwedd 2020*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

## RHAN 1

### Cyffredinol

**Enwi, dod i rym a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 20) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 4.00 a.m. ar 21 Tachwedd 2020.

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol" yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(**1**).

# RHAN 2

## Ychwanegiadau at y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

### Ychwanegiadau at y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt

**2.**— Yn Rhan 1 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin), yn y lle priodol mewnosoder—

"Bonaire, Sint Eustatius a Saba"

"Cymanwlad Ynysoedd Gogledd Mariana"

"Dinas Jerwsalem"(**2**)

"Gweriniaeth Namibia"

"Gweriniaeth Rwanda"

"Israel"

"Sri Lanka"

"Uruguay"

"Ynysoedd y Wyryf yr Unol Daleithiau".

### Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 2

**3.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan, yn union cyn 4.00 a.m. ar 21 Tachwedd 2020—

(a) oedd person ("P") yn ddarostyngedig i ofyniad i ynysu yn rhinwedd y ffaith iddo gyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth a restrir yn rheoliad 2, neu ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth o'r fath, a

---

(**1**) O.S. 2020/574 (Cy. 132) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179), O.S. 2020/840 (Cy. 185), O.S. 2020/868 (Cy. 190), O.S. 2020/886 (Cy. 196), O.S. 2020/917 (Cy. 205), O.S. 2020/944 (Cy. 210), O.S. 2020/962 (Cy. 216); O.S. 2020/981 (Cy. 220); O.S. 2020/1015 (Cy. 226), O.S. 2020/1042 (Cy. 231), O.S. 2020/942, O.S. 2020/1080 (Cy. 243), O.S. 2020/1098 (Cy. 249), O.S. 2020/1133 (Cy. 258), O.S. 2020/1165 (Cy. 263), O.S. 2020/1191 (Cy. 269), O.S. 2020/1223 (Cy. 277), O.S. 2020/1232 (Cy. 278), O.S. 2020/1237 (Cy. 279) ac O.S. 2020/1288 (Cy. 286).

(**2**) Ystyr y cyfeiriad hwn at Jerwsalem yw Dinas Jerwsalem yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys Dwyrain Jerwsalem a'r Tiriogaethau Palestinaidd.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) diwrnod olaf ynysiad P yw 21 Tachwedd 2020 neu ddiwrnod ar ôl y diwrnod hwnnw.

(2) Nid yw ychwanegu'r wlad a'r diriogaeth a restrir yn rheoliad 2 at Ran 1 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn effeithio ar y gofyniad i ynysu fel y mae'n gymwys i P, nac ar y modd y pennir diwrnod olaf ynysiad P o dan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

(3) Mae paragraff (4) yn gymwys pan fo person ("P")—

(a) yn cyrraedd Cymru am 4.00 a.m. ar 21 Tachwedd 2020 neu wedi hynny, a

(b) wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn rheoliad 2 o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dod i ben â'r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru.

(4) At ddibenion rheoliadau 7(1) ac 8(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, mae'r cwestiwn o ran a yw P wedi cyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth nad yw'n esempt neu ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth o'r fath i'w bennu, mewn perthynas â gwlad neu diriogaeth a restrir yn rheoliad 2, drwy gyfeirio at ba un a oedd y wlad neu'r diriogaeth yn wlad neu'n diriogaeth nad yw'n esempt pan oedd P yno ddiwethaf (ac nid drwy gyfeirio at statws y wlad neu'r diriogaeth pan fo P yn cyrraedd Cymru).

(5) Yn y rheoliad hwn, mae i "gofyniad i ynysu" yr ystyr a roddir gan reoliad 10(2) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol; ac mae cyfeiriadau at ddiwrnod olaf ynysiad P i'w dehongli yn unol â rheoliad 12 o'r Rheoliadau hynny.

## RHAN 3

## Diwygio rheoliad 4 (gofyniad i ddarparu gwybodaeth am deithiwr) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

### Diwygio rheoliad 4 (gofyniad i ddarparu gwybodaeth am deithiwr) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

**4.** Yn rheoliad 4(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn lle "cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cyrraedd" rhodder "wrth gyrraedd neu cyn cyrraedd".

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

## RHAN 4

## Diwygio Rhannau 1 a 2 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

**Diwygio Rhan 1 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (personau nad yw'n ofynnol iddynt gydymffurfio â rheoliadau 4, 5, 7 nac 8)**

**5.** Yn Rhan 1 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (personau nad yw'n ofynnol iddynt gydymffurfio â rheoliadau 4, 5, 7 nac 8), ym mharagraff 1(1)(f) ar ôl "gynhadledd y Deyrnas Unedig" mewnosoder "yn y Deyrnas Unedig".

**Diwygio Rhan 2 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (personau nad yw'n ofynnol iddynt gydymffurfio â rheoliadau 7 nac 8)**

**6.**—(1) Mae Rhan 2 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (personau nad yw'n ofynnol iddynt gydymffurfio â rheoliadau 7 nac 8), wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle paragraff 13 mewnosoder—

"**13.**—(1) Unrhyw berson y mae'r Adran berthnasol wedi ardystio ei fod yn bodloni'r disgrifiadau yn is-baragraffau (a), (b) neu (c)—

(a) gwas i'r Goron neu gontractwr llywodraeth y mae'n ofynnol iddo ymgymryd â gwaith plismona hanfodol neu waith llywodraeth hanfodol yn y Deyrnas Unedig yn ystod y cyfnod y byddai wedi bod yn ofynnol iddo, oni bai am y paragraff hwn, hunanynysu yn unol â rheoliadau 7 neu 8;

(b) person sy'n dychwelyd o gynnal busnes hanfodol y wladwriaeth y tu allan i'r Deyrnas Unedig;

(c) person sy'n dychwelyd i'r Deyrnas Unedig pan fo hynny'n angenrheidiol i hwyluso gweithrediad cenhadaeth ddiplomyddol neu swydd gonsylaidd Ei Mawrhydi, neu benodiad milwrol neu benodiad swyddogol arall ar ran Ei Mawrhydi.

(2) At ddibenion is-baragraff (1)—

(a) ystyr "swydd gonsylaidd" yw unrhyw brif gonswl, conswl, is-gonswl neu asiantaeth gonsylaidd,

(b) mae i "gwas i'r Goron" yr ystyr a roddir i "Crown servant" yn adran 12(1)(a) i

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(e) o Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol 1989,

(c) ystyr "gwaith llywodraeth hanfodol" yw gwaith sydd wedi ei ddynodi felly gan yr Adran berthnasol, ac mae'n cynnwys, yn benodol, waith sy'n gysylltiedig â diogelwch gwladol, gwaith yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol yn unol â'i swyddogaethau statudol, a gwaith sy'n ymwneud â mewnfudo, clefyd y coronafeirws neu unrhyw ymateb argyfwng arall, ond nid yw'n cynnwys gwaith o'r disgrifiad a bennir ym mharagraff 2(1) o Ran 1 o'r Atodlen hon,

(d) ystyr "plismona hanfodol" yw plismona sydd wedi ei ddynodi felly ar ran y prif swyddog perthnasol neu'r prif gwnstabl perthnasol,

(e) ystyr "busnes hanfodol y wladwriaeth" yw gweithgaredd a ddynodwyd yn hanfodol i'r Deyrnas Unedig neu Lywodraeth Ei Mawrhydi gan yr Adran berthnasol, ac mae'n cynnwys, yn benodol, drafodaethau dwyochrog neu amlochrog â gwladwriaeth arall neu sefydliad rhyngwladol arall ac ymweliadau â gwladwriaeth arall ar ran y Deyrnas Unedig neu Lywodraeth ei Mawrhydi,

(f) mae i "contractwr llywodraeth" yr ystyr a roddir i "government contractor" yn adran 12(2) o Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol 1989.".

(3) Ar ôl paragraff 13 mewnosoder—

"**13A**.—(1) Person sy'n dychwelyd o ymgymryd â gwaith hanfodol neu waith brys y tu allan i'r Deyrnas Unedig, a ardystiwyd gan yr Adran berthnasol yn waith sy'n angenrheidiol i hwyluso gwaith llywodraeth hanfodol neu fusnes hanfodol y wladwriaeth.

(2) At ddibenion is-baragraff (1) mae i "gwaith llywodraeth hanfodol" a "busnes hanfodol y wladwriaeth" yr un ystyr ag a roddir iddynt ym mharagraff 13.".

(4) Ym mharagraff 35(a)(i) hepgorer "gan gynnwys gwaith sy'n ymwneud â chynnal a chadw ac atgyweirio ceblau tanfor sy'n cysylltu'r Deyrnas Unedig â gwledydd eraill,".

(5) Ar ôl paragraff 38 mewnosoder—

"**39.** Person —

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) sy'n ymwneud â gosod, cynnal a chadw neu atgyweirio seilwaith telathrebu ffeibr optig tanfor,

(b) y mae ei rôl yn cefnogi yn uniongyrchol y gwaith o osod, cynnal a chadw neu atgyweirio seilwaith telathrebu ffeibr optig tanfor,

pan fo wedi teithio i'r Deyrnas Unedig yng nghwrs ei waith."

# RHAN 5

## Diwygiadau Amrywiol i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

**Diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol**

**7.**—(1) Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Rhan 1 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, yn lle'r pennawd rhodder "Gwledydd, tiriogaethau a rhannau o wledydd neu diriogaethau".

(3) Yn rheoliad 12B(3)(a)(ii) (gwahardd awyrennau a llestrau rhag teithio'n uniongyrchol o Ddenmarc), yn y testun Cymraeg, hepgorer "arall".

*Vaughan Gething*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
Am 3.02 p.m. ar 20 Tachwedd 2020

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 20) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 20) 2020.

**Vaughan Gething**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

20 Tachwedd 2020

## 1. Disgrifiad

Yn ddarostyngedig i esemptiadau penodedig, tan 10 Gorffennaf 2020, roedd Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("Y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") yn ei gwneud yn ofynnol i bob teithiwr sy'n cyrraedd Cymru o'r tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin (h.y. yr ardal ffiniau agored sy'n cynnwys y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a Gweriniaeth Iwerddon) ddarparu ei fanylion cyswllt a gwybodaeth am ei daith – ac ynysu am gyfnod o 14 o ddiwrnodau.

Diwygiwyd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 er mwyn (ymhlith pethau eraill) cyflwyno esemptiad rhag y gofyniad i ynysu ar gyfer teithwyr sy'n cyrraedd o wledydd a thiriogaethau penodedig, a elwir yn "wledydd esempt".

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i weithredu newidiadau a nodwyd gan y Gydganolfan Bioddiogelwch yn statws risg iechyd cyhoeddus rhai gwledydd neu diriogaethau, fel y bo'n angenrheidiol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

*Yn dod i rym*

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd y bydd y Rheoliadau yn dod i rym llai na 21 o ddiwrnodau ar ôl gosod yr offeryn yn y Senedd.

*Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol*

Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith fod hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn gysylltiedig â'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol; mae'r Llywodraeth o'r farn eu bod yn gymesur a hefyd yn gyfiawn at ddiben atal lledaeniad haint a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984"), a rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Gwneir y Rheoliadau drwy ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf 1984. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn rhoi rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Gwnaed y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ar 5 Mehefin 2020 a daethant i rym ar 8 Mehefin 2020 mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd

a berir gan fynychder a lledaeniad syndrom anadlol acíwt difrifol coronafeirws 2 (SARS-CoV-2).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac mae newidiadau wedi'u gwneud i'r rhestr o'r gwledydd a'r tiriogaethau esempt na fyddai'n ofynnol i deithwyr ynysu ar ôl cyrraedd Cymru o'r mannau hynny – yn fwyaf diweddar ar 14 Tachwedd 2020.

Mae'r cyngor sydd bellach wedi dod i law oddi wrth y Gydganolfan Bioddiogelwch yn dangos bod y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil mynychder a lledaeniad y coronafeirws wedi lleihau yn Bonaire, Sint Eustatius a Saba, Israel, Dinas Jerwsalem, Namibia, Ynysoedd Gogledd Mariana, Rwanda, Sri Lanka, Uruguay ac Ynysoedd y Wyryf yr Unol Daleithiau. Ni fydd yn ofynnol felly i deithwyr o'r gwledydd, y tiriogaethau a'r rhannau o wledydd hyn ynysu pan fyddant yn cyrraedd Cymru.

Bydd y gofynion diwygiedig yn dod i rym ar gyfer unrhyw deithwyr sy'n cyrraedd yr Ardal Deithio Gyffredin o'r gwledydd neu'r tiriogaethau hynny am 4.00 a.m. ddydd Sadwrn 21 Tachwedd 2020 neu wedi hynny.

Gwneir y diwygiadau ychwanegol canlynol i'r esemptiadau ar sail sector o'r gofynion i ddarparu gwybodaeth am deithwyr a hunanynysu:

- diwygio'r esemptiad ar gyfer cynrychiolwyr mewn cynadleddau rhyngwladol neu gynadleddau'r DU y rhoddir breintiau a breinryddidau iddynt yn y DU, er mwyn ei gwneud yn glir bod y cyfeiriad at gynadleddau yn golygu'r cynadleddau hynny a gynhelir yn y DU (ac nad yw'n gymwys i bobl sy'n dychwelyd o gynadleddau tramor);
- diwygio'r esemptiad ar gyfer gweision i'r Goron a chontractwyr llywodraeth i ehangu ei gwmpas a'i wneud yn gymwys i'w dibynyddion;
- ychwanegu esemptiad newydd ar gyfer gweithwyr telathrebu tanfor.

Gwneir diwygiad hefyd i'r gofyniad i ddarparu gwybodaeth am deithwyr er mwyn ei gwneud yn glir bod rhaid darparu'r wybodaeth wrth gyrraedd Cymru, neu cyn cyrraedd Cymru. Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud ambell i fân ddiwygiad a diwygiad technegol i'r Rheoliadau, gan gynnwys cywiro testun Cymraeg y Rheoliadau i ddileu'r gair "arall" o destun Cymraeg Rheoliad 12B(3)(a)(ii), a oedd wedi'i gynnwys mewn camgymeriad.

Bydd y newidiadau hyn hefyd yn dod i rym am 4.00 a.m. ddydd Sadwrn 21 Tachwedd 2020.

Ni fydd yr un o'r diwygiadau i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a wneir gan y Rheoliadau diwygio diweddaraf yn effeithio ar y gofynion o dan y Rheoliadau hynny i bersonau sy'n cyrraedd yr Ardal Deithio Gyffredin cyn i'r diwygiadau ddod i rym.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn fod y diwygiadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

## 5. Ymgynghori

Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ni chynhaliwyd unrhyw asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/VG/3966/20

Elin Jones, AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

20 Tachwedd 2020

Annwyl Lywydd,

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 20) 2020**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwy'n eich hysbysu y bydd yr Offeryn Statudol hwn yn dod i rym lai na 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod. Amgaeir y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau er gwybodaeth ichi.

Mae'r Rheoliadau a wneir heddiw yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ymhellach i ychwanegu Bonaire, Sint Eustatius a Saba, Cymanwlad Ynysoedd Gogledd Mariana, Israel, Dinas Jerwsalem, Gweriniaeth Namibia, Gweriniaeth Rwanda, Sri Lanka, Uruguay ac Ynysoedd y Wyryf yr Unol Daleithiau at y rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio. Mae'r Rheoliadau'n gwneud y newidiadau hyn oherwydd y newidiadau a nodwyd yn y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil cyrraedd o'r gwledydd hynny. Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud mân ddiwygiadau i'r eithriadau sectorol yn y prif Reoliadau.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud mân ddiwygiadau i'r eithriadau sectoraidd o fewn y prif Reoliadau.

Mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod yn galluogi'r Rheoliadau hyn i ddod i rym cyn gynted â phosibl, ac o ystyried newid yn y dystiolaeth ynghylch risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.

Oherwydd natur frys y Rheoliadau, ni chynhaliwyd ymgynghoriad.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru)** |
| **DYDDIAD** | **19 Tachwedd 2020** |
| **GAN** | **Vaughan Gething, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** |

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud darpariaeth yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 i sicrhau bod teithwyr sy'n cyrraedd Cymru o wledydd a thiriogaethau tramor yn gorfod hunanynysu am 14 diwrnod a darparu gwybodaeth amdanynt eu hunain fel teithwyr, er mwyn atal y coronafeirws rhag lledaenu ymhellach. Daeth y cyfyngiadau hyn i rym ar 8 Mehefin 2020.

Ar 10 Gorffennaf, diwygiodd Llywodraeth Cymru'r Rheoliadau hyn i gyflwyno eithriadau i'r gofyniad i hunanynysu ar gyfer rhestr o wledydd a thiriogaethau, ac ystod gyfyngedig o bobl mewn sectorau neu gyflogaeth arbenigol a allai fod wedi'u heithrio rhag y gofyniad i hunanynysu neu rhag rhai o ddarpariaethau'r gofynion ynghylch gwybodaeth am deithwyr.

Ers hynny, mae'r Rheoliadau hyn wedi'u hadolygu'n gyson ac mae nifer o newidiadau wedi'u gwneud i'r rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio.

Heddiw, adolygais asesiadau diweddaraf y Gyd-ganolfan Bioddiogelwch ac rwyf wedi penderfynu y bydd Bonaire, Sint Eustatius a Saba; Israel; Dinas Jerwsalem; Namibia; Ynysoedd Gogledd Mariana; Rwanda; Sri Lanka; Uruguay ac Ynysoedd y Wyryf UDA yn cael eu hychwanegu at y rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio. Ni fydd angen i bobl sy'n teithio o'r gwledydd a'r tiriogaethau hynny hunanynysu ar ôl cyrraedd Cymru, felly.

Yfory, byddaf yn gosod y rheoliadau angenrheidiol a ddaw i rym am 04:00 ddydd Sadwrn 21 Tachwedd.

# SL(5)651 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) 2020

## Cefndir a Diben

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (“y prif Reoliadau”) i dynnu Denmarc oddi ar y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt yn y Rheoliadau hynny ac i wneud darpariaethau trosiannol.

Daeth y Rheoliadau hyn i rym am 4:00am ar 6 Tachwedd 2020. Nodir bod darpariaethau deddfwriaethol pellach mewn perthynas â theithio o Ddenmarc wedi dod i rym am 4:00 am ar 7 Tachwedd 2020 trwy’r Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio a Chyfyngiadau Rhyngwladol) (Diwygio) (Cymru) 2020.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu’r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo’r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â’r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Mae’r 5 pwynt canlynol wedi’u nodi i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â’r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd.**

**Hawliau Dynol**

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol, sy’n ymwneud â’r Rheoliadau hyn a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2020:

*"Nid yw'r diwygiadau yn y ddau set o Reoliadau hyn yn newid y ffaith fod hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn gysylltiedig â'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol; mae'r Llywodraeth o'r farn eu bod yn gymesur a hefyd yn gyfiawn at ddiben atal lledaeniad haint a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

**Ymgynghoriad**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*"Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau Rhif 18 [...]."*

Mewn llythyr at y Llywydd oddi wrth Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd dyddiedig 6 Tachwedd 2020, eglurir hefyd:

*"Oherwydd natur frys y Rheoliadau, ni chynhaliwyd ymgynghoriad."*

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

Nodwn nad oes asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y Rheoliadau hyn, nac ar gyfer y prif Reoliadau, a gofynnwn i Lywodraeth Cymru esbonio pa drefniadau y mae wedi eu gwneud, mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn neu'r prif Reoliadau, i gyhoeddi adroddiadau o'r asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn unol â rheoliad 8(1)(d) o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

**Torri'r rheol 21 diwrnod a dod i rym cyn gosod**

Nodwn:

- Daeth y Rheoliadau hyn i rym cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd; a
- Torri'r rheol 21 21 diwrnod (hynny yw, y rheol y dylai 21 diwrnod fynd heibio rhwng y dyddiad y gosodir offeryn penderfyniad negyddol gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym).

Mae esboniad wedi'i roi gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd dyddiedig 6 Tachwedd 2020. Yn benodol, nodwn y canlynol yn y llythyr:

*"Dros nos, daeth yn angenrheidiol i wneud y Rheoliadau uchod, ac yn unol ag adrannau 4(1) ac 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwy'n eich hysbysu bod yr Offeryn Statudol hwn heb gadw at y confensiwn 21 diwrnod a wedi dod i rym cyn y gellid ei osod.* [...]

*Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 i dynnu Denmarc oddi ar y rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio. Mae'r Rheoliadau'n gwneud y newid hwn oherwydd y newidiadau a nodwyd yn y risg i iechyd y cyhoedd a achosir gan y rhai sy'n cyrraedd o'r wlad hon."*

Rydym hefyd yn nodi esboniad y Llywodraeth yn y Memorandwm Esboniadol sef ei bod hi'n angenrheidiol *"i dynnu Denmarc ar frys o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau eithriedig"* oherwydd *"bod risgiau iechyd yn dod i'r amlwg yn cael eu hadrodd o ffermydd mincod yn Nenmarc, a'r angen i weithredu cyn i fwy o deithio rhyngwladol o Ddenmarc gyrraedd y DU."*

**5. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

**Dogfen eglurhaol**

Rydym yn nodi ac yn croesawu cyhoeddi dogfen eglurhaol gan Lywodraeth Cymru, sy'n nodi'r amryw ddiwygiadau a wnaed i'r prif Reoliadau er mwyn cynorthwyo'r darllenydd i ddeall y prif Reoliadau.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

O ystyried yr amgylchiadau presennol o ran coronafeirws, mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r trydydd pwynt rhinweddau a nodwyd cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 16 Tachwedd 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth:** ***Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) 2020***

Pwynt Craffu ar Rinweddau 3:

Mae Rheoliadau wedi eu gwneud i ymateb i argyfwng iechyd y cyhoedd, felly ni fu’n bosibl llunio a chyhoeddi Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb ochr yn ochr â hwy. Caiff Asesiad Effaith Integredig o’r gofynion i ynysu ar gyfer teithio rhyngwladol ei gyhoeddi maes o law.

# SL(5)652 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau") er mwyn hepgor yr Almaen a Sweden o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt yn y prif Reoliadau ac i wneud darpariaethau trosiannol. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud diwygiad technegol i destun Cymraeg y prif Reoliadau er mwyn rhoi effaith i ddarpariaethau Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor, Materion y Gymanwlad a Materion Datblygu) 2020.

Daeth y Rheoliadau hyn i rym am 4.00 am ar 7 Tachwedd 2020.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau hyn o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pum pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

**Hawliau Dynol**

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, rydym yn nodi eglurhad y Llywodraeth a gynhwyswyd yn y Memorandwm Esboniadol bod cyngor "*sydd bellach wedi dod i law oddi wrth y Gydganolfan Bioddiogelwch yn dangos bod y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil mynychder a lledaeniad y coronafeirws wedi cynyddu yn yr Almaen a Sweden*".

Yn y Memorandwm Esboniadol, sy'n ymwneud â'r Rheoliadau hyn a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) 2020, mae Llywodraeth Cymru yn dweud y canlynol:

> *"Nid yw'r diwygiadau yn y ddau set o Reoliadau hyn yn newid y ffaith fod hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn gysylltiedig â'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol; mae'r Llywodraeth o'r farn eu bod yn gymesur a hefyd yn gyfiawn at ddiben atal lledaeniad haint a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

## Ymgynghoriad

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau [....] Rhif 19"*

Mewn llythyr at y Llywydd gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, dyddiedig 6 Tachwedd 2020, eglurir y canlynol hefyd:

> *"Oherwydd natur frys y Rheoliadau ni chynhaliwyd ymgynghoriad."*

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Nodwn nad oes asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y Rheoliadau hyn, nac ychwaith ar gyfer y prif Reoliadau, a gofynnwn i Lywodraeth Cymru esbonio pa drefniadau y mae wedi eu gwneud, mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn neu'r prif Reoliadau, i gyhoeddi adroddiadau o'r asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn unol â rheoliad 8(1)(d) o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

## Torri'r rheol 21 diwrnod

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fynd heibio rhwng y dyddiad y gosodir offeryn penderfyniad negyddol gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol a roddodd Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 6 Tachwedd 2020.

Yn benodol, nodwn y canlynol yn y llythyr:

> *"Mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod yn galluogi'r Rheoliadau hyn i ddod i rym cyn gynted â phosibl, ac o ystyried newid yn y dystiolaeth ar risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn."*

**5. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

### Dogfen eglurhaol

Rydym yn nodi ac yn croesawu cyhoeddiad dogfen eglurhaol gan Lywodraeth Cymru, sy'n nodi'r amrywiol ddiwygiadau a wnaed i'r prif Reoliadau er mwyn cynorthwyo'r darllenydd i ddeall y prif Reoliadau.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

O ystyried yr amgylchiadau presennol o ran y coronafeirws, mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol mewn perthynas â'r trydydd pwynt rhinweddau.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 16 Tachwedd 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth:** ***Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2020***

Pwynt Craffu ar Rinweddau 3:

Mae Rheoliadau wedi eu gwneud i ymateb i argyfwng iechyd y cyhoedd, felly ni fu'n bosibl llunio a chyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ochr yn ochr â hwy. Caiff Asesiad Effaith Integredig o'r gofynion i ynysu ar gyfer teithio rhyngwladol ei gyhoeddi maes o law.

# SL(5)660 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau)(Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") (O.S. 2020/574) mewn cysylltiad â'r gofyniad i ynysu ar deithwyr sy'n cyrraedd o wledydd a thiriogaethau penodol, a elwir yn "wledydd a thiriogaethau esempt".

Mae rheoliad 2 yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn—

(a) caniatáu i berson y mae'n ofynnol iddo ynysu o dan reoliad 12A o ganlyniad i'r ffaith iddo fod yn Nenmarc, neu fod ar yr un aelwyd â pherson sydd wedi bod yn Nenmarc, adael y man lle y mae'n ynysu er mwyn ymadael â Chymru;

(b) gwahardd unrhyw awyren neu long sy'n dod yn uniongyrchol o Ddenmarc rhag cyrraedd Cymru ac eithrio am resymau diogelwch;

(c) ychwanegu Bahrain, Cambodia, Chile, yr Emiraethau Arabaidd Unedig, Gwlad yr Iâ, Laos, Qatar ac Ynysoedd Turks a Caicos at y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt;

(d) hepgor Ardaloedd Safleoedd Sofran Akrotiri a Dhekelia ar Ynys Cyprus a Gwlad Groeg i gyd, ac eithrio ynysoedd Corfu, Creta, Kos, Ródhos a Zakynthos, o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt;

(e) gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol eraill.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau technegol i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ac i Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020 ("Rheoliadau Rhif 4") (O.S. 2020/1219). Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud diwygiad canlyniadol i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2020 (O.S.2020/1237) ("Rheoliadau 2020").

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd wedi'i diddymu neu ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vii): ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**.

Mae rheoliad newydd 12B o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gwahardd unrhyw awyren neu lestr sy'n dod yn uniongyrchol o Ddenmarc rhag cyrraedd Cymru ac eithrio am resymau diogelwch. Mewn perthynas â llestr, mae'r testun Saesneg yn diffinio "arrive" yng nghyd-destun "arrive in Wales" i olygu "to moor at any place" ond mae'r testun Cymraeg yn ei ddiffinio i olygu "angori yn unrhyw fan **arall**" (ychwanegwyd pwyslais).

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith bod hawliau unigolion o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn gysylltiedig â'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a Rheoliadau Rhif 4; mae'r Llywodraeth o'r farn eu bod yn gymesur a hefyd yn gyfiawn at ddiben atal lledaeniad haint a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd."*

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."*

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Pwyllgor yn nodi, ac yn falch o ddarllen, y Memorandwm Esboniadol ynghylch ystyriaeth Llywodraeth Cymru o adroddiadau blaenorol y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch Rheoliadau Rhif 4, Rheoliadau 2020 a diwygiadau technegol dilynol a wnaed i'r Rheoliadau hyn i fynd i'r afael â'r pwyntiau adrodd blaenorol.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â’r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru ar gyfer yr un pwynt adrodd Technegol yn unig.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 23 Tachwedd 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2020**

Dyma ymateb y Llywodraeth i adroddiad drafft y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad dyddiedig 18 Tachwedd 2020 ar Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2020.

**Pwynt craffu technegol 1: Anghysondebau rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg**

Mae'r adroddiad drafft yn tynnu sylw at anghysondeb rhwng testun Cymraeg a thestun Saesneg rheoliad 12B o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020, a fewnosodir gan y Rheoliadau hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am dynnu sylw at y mater a gwnaeth y diwygiad angenrheidiol ar y cyfle cynharaf, yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 20) 2020, a osodwyd ar 20 Tachwedd 2020.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref:

Mick Antoniw AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfau, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddLJC@senedd.wales

20 Tachwedd 2020

Annwyl Gadeirydd

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 22 Hydref ynghylch hygyrchedd a dealltwriaeth y cyhoedd o reoliadau'r Coronafeirws yng Nghymru. Rwyf fi, wrth gwrs, yn rhannu eich nod chi a nod y pwyllgor o hyrwyddo'r ymwybyddiaeth fwyaf posibl o'r gyfraith fel y mae'n gymwys i bobl yng Nghymru, er mwyn sicrhau'r cydymffurfiad mwyaf posibl â'r rheolau. O ddechrau'r pandemig, mae cyfleu ein rheoliadau wedi bod yn flaenoriaeth uchel i Lywodraeth Cymru, ochr yn ochr â'n negeseuon ym maes iechyd y cyhoedd.

Mae hyn wedi bod yn arbennig o bwysig wrth inni ddiwygio'r rheoliadau i adlewyrchu penderfyniadau'r Cabinet sy'n adlewyrchu'r sefyllfa gyfnewidiol yr ydym yn ei hwynebu yn ystod y pandemig. Yn aml mae'r newidiadau hyn yn digwydd yn gyflym iawn. Er hynny, fel llywodraeth rydym hefyd wedi rhoi cymaint o rybudd o newidiadau ag y gallwn, er enghraifft drwy gyhoeddi rheoliadau mor bell ymlaen llaw cyn iddynt ddod i rym â phosibl. Wrth ddrafftio rheoliadau, rydym wedi bod mor glir â phosibl o ran y geiriad a'r strwythur, ochr yn ochr â dull clir a chyson o enwi rheoliadau. Rydym hefyd wedi cydgrynhoi'r rheoliadau ddwywaith i helpu eglurder, ac wedi sicrhau bod rheoliadau diwygiedig ar gael ar ffurf gyfredol, yn ddwyieithog, cyn gynted â phosibl.

Mae'r dull hwn o gyflwyno ein rheoliadau wedi cael ei ganmol, er enghraifft, dywedodd Tom Hickman QC, o Blackstone Chambers yn Llundain, fod Cymru wedi arwain y ffordd: *'It was publishing a really good version of the regulations which showed the amendments, it was up to date, saying what the law was. That was totally fantastic and was not replicated at all in England.'*

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ochr yn ochr â'r rheoliadau eu hunain, rydym wedi defnyddio amrywiaeth eang o sianeli i sicrhau bod y cyhoedd yn cael gwybod am y gyfraith sy'n ymwneud â’r Coronafeirws yng Nghymru. Rydym yn gweithio gyda chyrff eraill yn y sector cyhoeddus, er enghraifft yr heddlu a’r awdurdodau lleol i sicrhau bod ein deunyddiau cyfathrebu yn cyrraedd cymaint o bobl â phosibl. Bu'n arbennig o bwysig gweithio'n agos iawn gydag asiantaethau sydd â'r dasg o orfodi'r rheoliadau, i sicrhau bod negeseuon cyson i'r cyhoedd, a bod dealltwriaeth gyffredin o gwmpas a chylch gwaith y rheoliadau rhwng cyrff cyhoeddus. Mae hyn wedi bod yn arbennig o bwysig lle mae rheoliadau yng Nghymru wedi bod yn wahanol i'r rhai yn Lloegr.

Mae ymgysylltiad â'r cyfryngau hefyd wedi bod yn hanfodol wrth adrodd yn gywir ac yn amserol ar y rheoliadau yn ystod y pandemig. Rydym wedi cynnal ymhell dros gant o gynadleddau i'r wasg yn fyw ar y teledu. Mae nifer o’r rhain wedi ymdrin yn benodol ag esbonio canlyniad yr adolygiadau 21 diwrnod, a nodi newidiadau clir a'u heffaith ar bobl a busnesau. Cafwyd sesiynau briffio technegol a sesiynau Holi ac Ateb hefyd gydag uwch gyfreithwyr i wella dealltwriaeth y cyfryngau o'r rheoliadau a'u cyd-destun.

Rydym ni, fel chithau, yn pryderu am ddylanwad cyfryngau'r DU mewn perthynas â’r newyddion sy’n cael eu darlledu yng Nghymru, ac rydym wedi gweithio'n agos gyda darlledwyr y DU a’r cyfryngau yn Llundain i sicrhau bod adroddiadau cywir ar y gwahanol ddulliau rheoleiddio ledled y pedair gwlad, a bod llais Cymru'n cael ei glywed yn glir ledled y DU.

Mae ein sianeli cyfryngau cymdeithasol ein hunain a’n gwefan hefyd wedi ein galluogi i gyfathrebu'n uniongyrchol â phobl Cymru. Bu cannoedd o filoedd o ymweliadau bob dydd â’n gwefan, sydd wedi bod yn llwyfan clir a sefydlog ar gyfer cyhoeddi rheoliadau, canllawiau, Cwestiynau Cyffredin a deunyddiau eraill. Rwyf fi a Gweinidogion eraill hefyd wedi cymryd rhan mewn sawl sesiwn Facebook Live i gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach na'r rhai sy'n defnyddio cyfryngau traddodiadol. Bu cynnydd mawr hefyd yn y defnydd o’n sianeli cyfryngau cymdeithasol lle rydym wedi llwyddo i ateb ymholiadau ac ymgysylltu'n uniongyrchol â'r cyhoedd ar y rheoliadau sy'n effeithio arnynt.

Mae ein hymgyrchoedd cyfathrebu hefyd wedi anelu at hybu cydymffurfiad ochr yn ochr â dealltwriaeth o'r rheoliadau, a thrwy ymgyrch Diogelu Cymru yn benodol, rydym wedi meithrin ymdeimlad o gydymdrech genedlaethol a chyfrifoldeb personol.

Byddwn yn parhau i wneud pob ymdrech i leihau unrhyw ddryswch ymhlith y cyhoedd ynghylch y rheoliadau drwy eu cyflwyno a'u hesbonio mewn ffordd sy'n glir ac yn hygyrch a chan ddefnyddio'r holl sianeli a chyfleoedd yn y cyfryngau sydd ar gael inni. Croesawaf awydd y pwyllgor am well dealltwriaeth byth o du’r cyhoedd ac rwyf yn gobeithio y ceir cydnabyddiaeth o'r ymdrechion sylweddol a pharhaus yr ydym wedi'u gwneud, hyd yn oed yn yr amgylchiadau mwyaf heriol sy'n newid yn gyflym, i roi'r wybodaeth gywir i'r cyhoedd a'u helpu i Ddiogelu Cymru.

Dymuniadau gorau

**MARK DRAKEFORD**

Eitem 6.2

**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd CF99 1SN

20 Tachwedd 2020

Annwyl Mick,

**Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) 2020**

Diolch ichi am eich llythyr ynghylch Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) 2020.

Nodaf eich sylw ynghylch cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) a gynhyrchwyd ar yr adeg y cafodd y llacio dros dro ar Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 ei gymeradwyo i gefnogi'r sector mabwysiadu yn ystod y pandemig. Adeg ysgrifennu nid oedd unrhyw ofyniad sefydliadol i gyhoeddi Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant. Ym mis Gorffennaf 2020 penderfynwyd cyhoeddi pob CRIA o 1 Ionawr 2020. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant bellach wedi'i gyhoeddi ac mae ar gael trwy'r ddolen isod:

https://llyw.cymru/rheoliadau-asiantaethau-mabwysiadu-cymru-2020-asesiad-or-effaith-ar-hawliau-plant-html

Er ein bod yn anelu at gyhoeddi'r holl ddogfennau ategol ar yr un pryd ag y mae'r prif ddogfennau deddfwriaethol yn cael eu gosod gerbron y Senedd, mae maint y ddeddfwriaeth a'r gwaith sy'n gysylltiedig â Covid-19 wedi cael effaith fawr ar y gallu i fodloni amserlenni. O ganlyniad, cyhoeddwyd y darnau perthnasol o'r Asesiad Effaith Integredig a'r crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyn gynted â phosibl. Hoffwn gydnabod pa mor gyflym y bu swyddogion yn gweithio i hwyluso'r Rheoliadau hyn i gefnogi mater brys ac anodd a allai fod wedi effeithio'n andwyol ar ddigonedd y lleoliadau i blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Nid oedd yn briodol gohirio'r rheoliadau nes bod y dogfennau eraill ar gael gan fod angen sicrhau y gall y broses mabwysiadu a maethu gael ei chynnal mor effeithiol ac effeithlon â phosibl i gefnogi rhai o'r plant mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas yn ystod y pandemig. Mae'r holl ddogfennau cysylltiedig wedi'u cyhoeddi ac amgaeaf ddolenni er hwylustod:

1. **Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad:**

https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2020-10/the-adoption-and-fostering-wales-miscellaneous-amendments-coronavirus-regulations-2020-summary-response.pdf

2. **Asesiad Effaith Integredig**

https://gov.wales/adoption-and-fostering-wales-miscellaneous-amendment-coronavirus-regulations-2020-integrated-impact-html

Hyderaf y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol ichi.

Yn gywir

**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Julie Morgan AS
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

6 Tachwedd 2020

Annwyl Julie

**Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) 2020**

Gwnaethom graffu ar **Reoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) 2020** (y Rheoliadau) yn ein cyfarfod ar 19 Hydref 2020, a gosod ein hadroddiad yr un diwrnod. Trafodom ymateb Llywodraeth Cymru yn ein cyfarfod ar 2 Tachwedd.

Roedd ein hadroddiad yn cynnwys pedwar rhinwedd ac, er ein bod yn ddiolchgar am yr ymateb a gawsom, mae rhai materion yr hoffem fynd ymhellach ar eu trywydd gyda chi.

Roedd y pwynt cyntaf yn ein hadroddiad yn tynnu sylw at y ffaith nad oedd yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA), a gynhyrchwyd ar yr adeg y cymeradwywyd yr hawddfraint dros dro i Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 ar ddechrau'r pandemig, ar gael yn gyhoeddus ac felly nid oedd yn bosibl canfod a sefydlodd yr asesiad yn llawn nad oes ymyrraeth â hawliau plant a phobl ifanc o dan y Confensiwn.

Rydym yn siomedig gyda'r ymateb a gawsom gan Lywodraeth Cymru, sy'n nodi, "Mae'r CRIA hwn ar gael i'r cyhoedd drwy restr CRIA ganolog Llywodraeth Cymru. Ar yr adeg y paratowyd y CRIA nid oedd yn orfodol cyhoeddi pob CRIA. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cyhoeddi'r CRIA hwn a bydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn yr ychydig wythnosau nesaf." Nodwn hefyd mewn perthynas â'r Rheoliadau dan sylw fod yr "adrannau perthnasol o'r Asesiad Effaith Integredig wrthi'n cael eu cyhoeddi."

Hefyd, i fodloni'r rhwymedigaethau a osodwyd gan adran 1 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, ac oherwydd bod y broses ddiwygiedig wedi bod yn rhedeg yn anffurfiol ers yr hawddfraint dros dro, awgrymom y byddai'n briodol cynnal a chyhoeddi asesiad pellach yn benodol i'r Rheoliadau hyn i sefydlu na effeithir ar yr hawliau

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565

perthnasol. Er y nodwn y cynhaliwyd Asesiad Effaith Integredig ar gyfer y Rheoliadau, mae’n siomedig eto mai dim ond adrannau perthnasol o'r Asesiad Effaith Integredig sydd wrthi'n cael eu cyhoeddi yn awr.

Roedd ein hail a’n trydydd pwyntiau rhinweddau yn gwneud sylwadau ar yr ymgynghoriad a gynhaliwyd ar y Rheoliadau hyn gan Lywodraeth Cymru dros bedair wythnos rhwng 27 Gorffennaf a 24 Awst 2020. Gwnaethom dynnu sylw at y ffaith nad yw'r ymatebion i’r ymgynghoriad ar gael i'r cyhoedd chwaith ac felly nid oedd yn bosibl mesur sut yr ystyriwyd yr ymatebion hynny wrth ddatblygu'r polisi sy'n sail i'r Rheoliadau. Nid yw’n eglur i ni pam nad yw Llywodraeth Cymru wedi bod yn y broses o gyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyn hyn.

Yn gyffredinol, rydym yn ystyried bod dull Llywodraeth Cymru yn enghraifft o arfer gwael.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech roi gwybod i ni pan fydd y CRIA, yr adrannau perthnasol o'r Asesiad Effaith Integredig a’r crynodeb o’r ymatebion i’r ymgynghoriad mewn perthynas â’r Rheoliadau wedi cael eu cyhoeddi.

Yn gywir



**Mick Antoniw AS**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

SeneddLJC@senedd.wales

24 Tachwedd 2020

Annwyl Mick

Pleser yw eich hysbysu bod Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020 wedi'i wneud gan y Cyfrin Gyngor ar 11 Tachwedd a'i fod wedi dod i rym wedyn.

Ceir copi o'r Gorchymyn fel y'i cymeradwywyd gan y Cyfrin Gyngor ar wefan legislation.gov.uk drwy'r ddolen isod:

https://www.legislation.gov.uk/uksi/2020/1255/made/welsh

Mae Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020 yn rhestru swyddi ac aelodaeth o gyrff sy'n anghymhwyso eu deiliaid rhag bod yn Aelod o'r Senedd (ond nid o fod yn ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd). Disgrifir y swyddi yn yr Atodlen i'r Gorchymyn.

Bydd y Gorchymyn hwn yn dirymu ac yn disodli Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015, gan gael effaith adeg etholiad pan gynhelir y bleidlais ar 5 Ebrill 2021 neu ar ôl hynny.

Mae swyddi anghymhwyso ychwanegol, ynghyd â chategorïau o bersonau sydd wedi'u hanghymhwyso rhag bod yn Aelod o'r Senedd, wedi'u rhagnodi gan adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac Atodlen 1A iddi.

Yn gywir

Mark Drakeford

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

seneddLJC@senedd.cymru

25 Tachwedd 2020

Annwyl Gadeirydd

Ymddiheuriadau diffuant am fod mor hwyr yn ateb eich llythyr dyddiedig 4 Medi.

Pennodd Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020, a ddiwygiodd Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (ar y pryd, y prif reoliadau), fod casglu gwybodaeth gyswllt oddi wrth bobl at ddibenion hysbysu'r rhai a allai fod wedi dod i gysylltiad â'r coronafeirws yn "fesur rhesymol" a allai orfod cael ei wneud yn dibynnu ar yr amgylchiadau, o dan reoliad 12, o'r prif Reoliadau ar y pryd.

Bydd y pwyllgor yn ymwybodol bod cyfyngiadau newydd wedi dod i rym ers i'r rheoliadau hyn gael eu gwneud. Mae'r diweddaraf o'r rhain yma.

Cafodd canllawiau Llywodraeth Cymru *Cadw cofnodion o staff, cwsmeriaid, ac ymwelwyr: profi, olrhain, diogelu* ar 26 Hydref. Mae hyn yn datgan:

> Mae rheoliad 21 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020 yn ei gwneud yn ofynnol bod mesurau rhesymol yn cael eu cymryd i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws mewn mangreoedd sy'n agored i'r cyhoedd ac mewn unrhyw fangre lle mae gwaith yn digwydd, yn ogystal â lleihau lledaeniad y coronafeirws gan y rhai sydd wedi bod yn y fangre. Mae rheoliad 21 yn rhoi gwybodaeth am y mesurau rhesymol hynny, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau. Dylid ei ddarllen ar y cyd â'r canllawiau hyn ac â'r prif ganllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 24 (o'r Rheoliadau hynny).
>
> Un o'r mesurau rhesymol yw:
> Casglu gwybodaeth gyswllt oddi wrth bob person yn y fangre a'i chadw am 21 o ddiwrnodau at ddiben ei darparu i unrhyw un o'r canlynol ar ei gais
>
> (i) Gweinidogion Cymru,
> (ii) swyddog olrhain cysylltiadau;
>
> Mesur rhesymol arall yw:

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

(a) cymryd mesurau rhesymol i sicrhau bod yr wybodaeth am y cysylltiad yn gywir

Ystyr 'gwybodaeth gyswllt', mewn perthynas â pherson yn y fangre, yw enw’r person a digon o wybodaeth (gan gynnwys rhif ffôn a’r dyddiad a’r amser pan oedd y person yn y fangre) i allu cysylltu â'r person i'w hysbysu y gallai fod wedi dod i gysylltiad â’r coronafeirws yn y fangre.

Mae’r cwestiwn ynghylch a yw’r mesur hwn yn un “rhesymol”, ac felly’n un y mae'n rhaid ei gymryd, yn dibynnu i ba raddau y mae modd i bobl nad ydynt yn adnabod ei gilydd ryngweithio yn y fangre ac a oes risg o ryngweithio agos.

Un o ddau ddiben datganedig Rheoliad 17 yw lleihau'r risg y bydd unrhyw berson sydd wedi bod ar fangre rhywun yn lledaenu'r feirws.

Nodaf sylw'r pwyllgor - "er y gallai fod yn rhesymol yn y mwyafrif helaeth o achosion i'r busnesau a restrir uchod gasglu a chadw gwybodaeth am gwsmeriaid, nid ydym yn argyhoeddedig bod hyn yn gyfystyr â rhwymedigaeth gyfreithiol gyffredinol ar bob busnes o'r fath. Rhaid penderfynu ar bob achos ar sail y ffeithiau i benderfynu beth sy'n rhesymol, yn unol â'r rheoliadau”.


Deallaf paham y byddai'r pwyllgor yn awgrymu hyn, ond ein barn ni yw bod gan rai lleoliadau risg uwch yn eu hanfod, yn seiliedig ar ffactorau megis i ba raddau y mae pobl nad ydynt yn byw gyda'i gilydd yn debygol o ryngweithio ar y safle a hyd ac agosrwydd cyswllt o'r fath. Am y rheswm hwnnw, rydym yn parhau i fod yn fodlon bod casglu manylion cyswllt yn rheolydd angenrheidiol ar gyfer unrhyw leoliad o'r fath. Yn y cyd-destun hwnnw fod y lleoliadau rhestredig yn fathau o leoliadau y bu'n ofynnol iddynt gau yn ystod y cyfnod atal byr brigiad o achosion ac yn flaenorol, ac felly mae ei gwneud yn ofynnol casglu manylion cyswllt yn gyfyngiad llawer llai ar allu'r lleoliadau hyn i weithredu nag a fu ar waith ar gamau eraill o'r brigiad o achosion.

Nodaf hefyd fod y pwyllgor, mewn achosion eraill yn y gorffennol, wedi gofyn i ni ddarparu mwy o gywirdeb a sicrwydd ynglŷn â'r hyn y mae'n ei ystyried yn rhesymol o dan ddeddfwriaeth, felly gobeithiaf y byddwch yn derbyn, ar ôl ystyried, ei bod yn fwy defnyddiol rhoi'r neges glir hon i'r mathau hyn o leoliadau, yn hytrach na'i gwneud yn ofynnol i leoliadau unigol wneud eu hasesiadau eu hunain.

Byddai'r dull olaf wedyn yn ei gwneud yn ofynnol i swyddogion gorfodi unigol ffurfio eu barn eu hunain hefyd, a fyddai'n peryglu gwneud penderfyniadau anghyson.

Mae casglu enwau a gwybodaeth ddigonol i alluogi pobl i gysylltu â'r person yn cefnogi Profi, Olrhain, Diogelu wrth olrhain y bobl hynny a allai fod wedi dod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y fangre. Os caiff ei asesu fel cyswllt, bydd gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu GIG Cymru wedyn yn dweud wrthynt am hunanynysu, sy'n lleihau'r risgiau o ddod i gysylltiad ag eraill gan dorri cadwyn trosglwyddo'r coronafeirws.

Dymuniadau gorau



**MARK DRAKEFORD**

Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

4 Medi 2020

Annwyl Mark

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) ("Prif Reoliadau")**
**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 ("Rheoliadau Rhif 2 Rhif 5")**

Gwnaethom ystyried Rheoliadau Rhif 2 Rhif 5 yn ein cyfarfod ar 24 Awst 2020 a gosod ein hadroddiad yr un diwrnod. Ers paratoi ein hadroddiad, rydym wedi dod yn ymwybodol o ganllawiau Llywodraeth Cymru *Cadw cofnodion ynghylch staff, cwsmeriaid ac ymwelwyr: profi, olrhain, diogelu*, sy'n codi'r pryderon canlynol.

Mae'r canllawiau yn dweud ei bod hi'n "ofyniad cyfreithiol" i'r busnesau canlynol gasglu a chadw gwybodaeth gyswllt cwsmeriaid:

- Lletygarwch, gan gynnwys tafarndai, bariau, bwytai a chaffis.
- Sinemâu.
- Gwasanaethau cysylltiad agos, gan gynnwys siopau trin gwallt a siopau barbwr, gwasanaethau harddwch, gwasanaethau tatŵio, therapyddion chwaraeon a thylino.
- Pyllau nofio, stiwdios ffitrwydd o dan do, campfeydd, sbâs, a chanolfannau neu gyfleusterau hamdden eraill o dan do.

Fel y gwyddoch, nid yw'r Prif Reoliadau yng Nghymru yn dweud yn benodol bod gofyn i'r busnesau hyn gasglu a chadw gwybodaeth i gwsmeriaid. Yn hytrach, rhaid i'r busnesau hyn (fel pob busnes arall, gweithle, adeilad agored ac ati) gymryd mesurau rhesymol at ddibenion lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â choronafeirws yn yr adeilad neu at y diben o leihau lledaeniad coronafeirws gan y rhai sydd wedi bod yn yr adeilad. Er y gallai fod yn rhesymol yn y mwyafrif helaeth o achosion i'r busnesau a restrir uchod gasglu a chadw gwybodaeth am gwsmeriaid, nid ydym yn argyhoeddedig bod hyn yn gyfystyr â rhwymedigaeth gyfreithiol gyffredinol ar bob busnes o'r fath. Rhaid penderfynu ar bob achos yn rhinwedd ei ffeithiau i benderfynu beth sy'n rhesymol, yn unol â'r rheoliadau.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565

Hefyd, mae'r canllawiau'n trafod casglu a chadw gwybodaeth yng nghyd-destun y diben o leihau'r risg y bydd unrhyw berson sydd wedi bod ar safle rhywun yn lledaenu'r feirws. Fodd bynnag, mae rheoliad 12(2A) o'r Prif Reoliadau yn dweud y gellir casglu a chadw gwybodaeth am gwsmeriaid er mwyn lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â choronafeirws ar y safle.

Yn sgil yr uchod, byddem yn ddiolchgar am gadarnhad a oes angen diwygio'r Prif Reoliadau neu'r canllawiau.

Yn gywir

**Mick Antoniw AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English

Jane Hutt AS/MS
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-JH-3575-20

Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon,
Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau,
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad,
Pwyllgor Cyllid, a
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig.

25 Tachwedd 2020

Cadeirydd Annwyl,

Yn ei Ddatganiad Llafar i'r Cyfarfod Llawn ar 15 Gorffennaf, cyhoeddodd y Prif Weinidog fod y Ddyletswydd Gymdeithasol-economaidd ("y Ddyletswydd") yn un o bum maes a gadarnhawyd yn y Rhaglen Ddeddfwriaethol i'w chyflawni cyn diwedd y tymor Senedd hwn. Yn dilyn hynny ar 16 Gorffennaf, cadarnheais trwy Ddatganiad Ysgrifenedig y byddai'r Ddyletswydd yn dod i rym ar 31 Mawrth 2021.

Gan gychwyn Rhan 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, y Ddyletswydd, bydd yn ofynnol i gyrff cyhoeddus penodedig, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, wrth wneud penderfyniadau strategol megis penderfynu ar flaenoriaethau a gosod amcanion, ystyried sut y gallai eu penderfyniadau helpu i leihau anfantais economaidd-gymdeithasol.

Mae cwmpas pwerau Gweinidog Cymru i ddal cyrff cyhoeddus Cymru yn ôl y Ddyletswydd yn cael ei bennu gan 'brawf' yn adran 2 (6) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Yn seiliedig ar hyn, rwy'n rhagweld y bydd y cyrff cyhoeddus Cymreig canlynol yn cael eu nodi yn y Rheoliadau:

- Gweinidogion Cymru;
- Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig;
- Awdurdodau lleol;
- Awdurdodau Tân ac Achub;
- Awdurdod Cyllid Cymru; a
- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n cydnabod y pwysau sydd ar amserlenni Pwyllgor y Senedd rhwng nawr a diwedd tymor y Senedd hon. Rwy'n ysgrifennu felly i gynnig cyfle i'ch Pwyllgor, fel un a fydd â diddordeb yn y Ddyletswydd, gael sesiwn friffio dechnegol o fy mlaen i osod y Rheoliadau yn y Senedd ar 9 Chwefror 2021. Byddai hyn yn rhoi cyfle i chi ac Aelodau'r Pwyllgor ddeall y fframwaith deddfwriaethol a'r egwyddorion y tu ôl i'r Ddyletswydd. Pe bai hyn yn ddefnyddiol i chi, byddwn yn ddiolchgar pe gallai Clerc eich Pwyllgor gysylltu â'r Rhaglen Ddeddfwriaethol a'r Uned Lywodraethu i wneud trefniadau.

I gael rhagor o wybodaeth am y Ddyletswydd, gan gynnwys canllawiau anstatudol interim, gweler gwefan Llywodraeth Cymru.

Yn gywir,



**Jane Hutt AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog a’r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip

Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddLJC@senedd.cymru

26 Tachwedd 2020

Annwyl Gadeirydd

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Hydref yn gofyn am ragor o wybodaeth am yr Ymchwiliad Gwneud i Gyfiawnder Weithio.

Cyn ymateb i'ch cais, rhaid imi dynnu sylw at y ffaith bod yr holl wybodaeth a ddarperir isod ac yn yr Atodiad i'r llythyr hwn yn destun rhai cyfyngiadau gweithredol difrifol iawn. Fel y byddwch yn gwerthfawrogi, nid yw'r setliad datganoli presennol yn ariannu swyddogaeth gyfiawnder. Roedd hyn yn broblem hyd yn oed cyn inni orfod ymateb i'r pandemig. Mae paratoadau ar gyfer diwedd y cyfnod pontio yn ogystal â meysydd newydd o waith brys yn rhoi pwysau digynsail ar ein staff. Felly gobeithiaf y bydd y wybodaeth ganlynol yn ddefnyddiol o ran meincnodi'r sefyllfa fel y mae ar hyn o bryd.

Fel yr amlygwyd gennych, fe wnaethom gytuno yn ystod y sesiwn dystiolaeth i ddarparu rhywfaint o wybodaeth bellach i'r Pwyllgor.

Mae'r Atodiad i'r llythyr hwn yn cynnwys y Rhaglen Waith ac yn darparu gwybodaeth bellach am y pum ffrwd unigol i weithredu argymhellion y Comisiwn Cyfiawnder yng Nghymru y gallwn fwrw ymlaen â nhw.

O ran data a'r llysoedd, ymddengys nad oes unrhyw wybodaeth barod ar gael sy'n galluogi cymharu perfformiad y llysoedd yng Nghymru o'r llysoedd yn Lloegr. Bydd ein dangosfwrdd newydd ar gyfiawnder yn ffynhonnell wybodaeth amhrisiadwy yn y maes hwn a byddwn wrth gwrs yn hysbysu'r Pwyllgor cyn gynted ag y bydd yn barod i'w gyhoeddi.

Gan droi at y cwestiynau pellach, a defnyddio'r rhifau a nodir yn eich llythyr, gallaf ymateb fel a ganlyn: -

**1. Y sylwadau a wnaed i Lywodraeth y DU ynghylch effaith COVID-19 ar ddarparu cyfiawnder yng Nghymru.**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ystod y pandemig, buom mewn cysylltiad agos â'r Arglwydd Ganghellor a'i swyddogion, yr Arglwydd Brif Ustus a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi ynghylch ystod o faterion gan gynnwys gweithrediad y llysoedd yn ystod y cyfyngiadau symud a'r cyfnod atal byr, arferion gweithio diogel, ôl-groniad o achosion llys a chynigion ar gyfer ffyrdd o weithio i fynd i'r afael â hynny. Rydym wedi cael cadarnhad bod canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi'u hymgorffori yng ngweithdrefnau gweithredol y llysoedd, ac y bydd unrhyw ffyrdd newydd o weithio yn cael eu gwerthuso. Cawsom gadarnhad y bydd gwaith gorfodaeth sifil sy'n cynnwys ymweliadau â thai yn cael ei atal yn ystod y cyfnod atal byr fel y gwnaed yn ystod y cyfyngiadau symud. Yn ddiweddar, rwyf hefyd wedi tynnu sylw at yr angen am fod yn agored gyda'r cyhoedd a'r angen am dryloywder mewn treialon llys sy'n gysylltiedig â gorfodi rheoliadau Covid-19 sy'n gysylltiedig â Chymru.

Cyfarfu’r Dirprwy Weinidog a’r Prif Chwip â Gweinidog Cyfiawnder Llywodraeth y DU ar sawl achlysur yn ystod yr argyfwng ac mae wedi trafod adferiad y gwasanaethau Carchardai a Phrawf.

Mae ein gwaith agos gyda heddluoedd Cymru a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu hefyd wedi bod yn hanfodol i sicrhau bod ymateb Cymru i argyfwng Covid yn gweithio'n briodol ac rwy'n hynod ddiolchgar i'r heddluoedd am eu hymgysylltiad.

**2. Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i'r Senedd am y broses o gydweithio â Llywodraeth y DU er mwyn rheoli adferiad y system gyfiawnder yn dilyn y pandemig?**

**4. Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i'r Senedd am ei hymgysylltiad â Gweinidogion ac adrannau Llywodraeth y DU, ynghyd â chyrff cyfiawnder heb eu datganoli ar wella'r modd y sicrheir cyfiawnder yng Nghymru?**

Byddwn yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd drwy ddatganiadau rheolaidd, dadleuon, cwestiynau ac wrth gwrs ymchwiliadau ei phwyllgorau.

**3. Yn wyneb y sylwadau a wnaed gan randdeiliaid cyfiawnder yn adroddiad Canolfan Llywodraethiant Cymru, 'Justice at the Jagged Edge in Wales' - sef na allwch chi graffu ar yr hyn na wyddoch sy'n digwydd' sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y cyhoedd a'r Senedd yn ymwybodol o waith Llywodraeth Cymru ym maes cyfiawnder?**

Mae hon yn her sy'n deillio o'r ffaith bod y cyfrifoldeb wedi'i rannu rhwng Cymru a San Steffan ar hyn o bryd a chymhlethdod y setliad datganoli presennol. Rydym yn dal i wynebu’r sefyllfa hon yng Nghymru a ddisgrifir gan y Comisiwn Cyfiawnder. Mae cyrff sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru - er enghraifft yr heddlu, llysoedd, carchardai a'r gwasanaeth prawf - yn atebol i Weinidogion y DU ac nid yw eu systemau wedi'u cynllunio i ddarparu gwybodaeth ar unrhyw sail arall.

Mae'r sefyllfa hon yn cael ei gwaethygu gan yr hyn sydd, yn fy marn i, yn awdurdodaeth gynyddol gymhleth ac artiffisial yng Nghymru a Lloegr.

Efallai mai un o effeithiau mwyaf sylfaenol y pandemig fu'r ffordd y mae'r cyhoedd, am y tro cyntaf, wedi cael profiad o gyfraith Gymreig a wnaed yng Nghymru sy'n cyffwrdd â bywydau beunyddiol cyffredin pob un ohonom. Mae'r deddfau sy'n creu'r troseddau hyn yn cael eu gwneud yng Nghymru ond maent yn cael eu plismona a'u gorfodi yng Nghymru gan sefydliadau a allai fod yn atebol i Lywodraeth y DU yn unig. Mae'r pandemig wedi codi

disgwyliadau y dylai penderfyniadau am bobl Cymru a'u bywydau yng Nghymru gael eu gwneud, eu plismona a'u gorfodi, yn yr ystyr ehangaf, yng Nghymru.

**5. Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ar wella tryloywder ar wariant cyffredinol ar y system gyfiawnder yng Nghymru?**

Oherwydd nad yw cyfiawnder wedi'i ddatganoli, deallwn nad yw'n bosibl dadgyfuno holl ffigurau'r gyllideb, nac yn wir ddadgyfuno'n hawdd unrhyw ddata eraill, sy'n ymwneud â Chymru'n unig o swyddogaeth gyfiawnder gyfunol Cymru a Lloegr na chafodd ei gynllunio erioed i weithredu gyda dau gorff gwahanol o gyfraith. Mae hyn yn ymwneud nid yn unig â gwariant uniongyrchol ar faterion yn ymwneud â chyfiawnder yng Nghymru ond hefyd â gwariant anuniongyrchol, megis cymorth gweinyddol, systemau cyfrifiadurol ac ati.

Derbynnir yn gyffredinol, wrth gwrs, nad yw'r system gyfiawnder yn cael ei hariannu'n ddigonol, felly hyd yn oed pe bai'n bosibl dirnad faint sy'n cael ei wario yng Nghymru ar hyn o bryd, ni fyddai hynny'n nodi faint y byddai ei angen er mwyn ariannu'n iawn y math o system gyfiawnder yng Nghymru y byddai Llywodraeth Cymru yn awyddus i'w chreu.

Ystyriaeth arall yw'r ffaith nad yw gwariant *yng* Nghymru o reidrwydd yn adlewyrchu'r gwariant *ar* Gymru gan nad yw carcharorion Cymru i gyd yn cael eu lletya yng Nghymru, er enghraifft. Ac nid yw pob achos llys yng Nghymru yn cael ei glywed yng Nghymru.

**6. Sut fydd Llywodraeth Cymru yn adrodd ynghylch ei gwariant ar gyfiawnder, ac yn galluogi'r Senedd i ystyried y gwariant hwn fel rhan o'r gwaith craffu ar y gyllideb?**

Nid yw gwariant ar weithgaredd sy'n gysylltiedig â chyfiawnder wedi'i ddadgyfuno ar wahân yn ein cyllideb nac yn ein cyfrifon blynyddol. Fel rhan o'r rhaglen trawsnewid cyfiawnder parhaus byddwn yn archwilio a oes unrhyw ffyrdd y gallwn wella lefel y wybodaeth a ddarparwn am wariant ar gyfiawnder.

**7. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i farn Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru y dylai Uned Tribiwnlysoedd Cymru gael statws tebyg i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, ac na ddylai hynny aros am gwblhau gwaith Comisiwn y Gyfraith?**

Trafodwyd y pwnc hwn yn fy nghyfarfod cyntaf â Syr Wyn Williams yn 2019 ac rydym wedi trafod hyn eto ers hynny. Rwy'n cytuno ag egwyddor annibyniaeth Uned Tribiwnlysoedd Cymru. Mae model asiantaeth weithredol fel Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi yn un ateb posibl ond mae yna atebion eraill. Er enghraifft mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd yr Alban (SCTS) yn gorff corfforaethol annibynnol a sefydlwyd drwy statud. Yng Nghymru mae gennym hefyd fodel Awdurdod Cyllid Cymru. Byddwn yn parhau i archwilio'r opsiynau hyn, ond credaf na ddylem ychwaith achub y blaen ar ganfyddiadau Comisiwn y Gyfraith.

**8. Sut y mae Uned Tribiwnlysoedd Cymru yn monitro hygyrchedd Tribiwnlysoedd Cymru, gan gynnwys cydraddoldebau, y defnydd o'r Gymraeg a phrofiad ymgyfreithwyr drostynt eu hunain?**

Mae Uned Tribiwnlysoedd Cymru yn casglu data cyfyngedig ar gydraddoldeb a phrofiadau y rhai sy'n ymgyfreithwyr drostynt eu hunain. Mae pob cais yn cael ei drin yn ôl ei deilyngdod a gwneir addasiadau rhesymol yn ôl yr angen i sicrhau bod pob defnyddiwr tribiwnlys yn cael yr un cyfle i gymryd rhan a chyfrannu.

Mae Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn amlinellu yn ei adroddiad blynyddol bod yr holl dribiwnlysoedd yn parhau i gynnig gwasanaeth cyfrwng Cymraeg llawn i'w defnyddwyr yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan hysbysiadau cydymffurfio Comisiynydd y Gymraeg.

**9. Sut y mae Uned Tribiwnlysoedd Cymru yn monitro effaith pandemig COVID-19 ar berfformiad a hygyrchedd Tribiwnlysoedd Cymru? A fydd data'n cael eu cyhoeddi ar gynnal gwrandawiadau o bell?**

Mae Tribiwnlysoedd Cymru yn monitro niferoedd yr achosion am y cyfnod a bydd y wybodaeth honno'n cael ei bwydo i mewn i adroddiad blynyddol Llywydd y Tribiwnlysoedd. Deallaf fod y Llywydd yn bwriadu cynnwys adran sylweddol yn ei drydydd adroddiad blynyddol ar effaith COVID 19 ar y tribiwnlysoedd.

**10. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i baratoi Tribiwnlysoedd Cymru ar gyfer yr adferiad yn dilyn COVID-19?**

Mae'r tribiwnlysoedd wrth gwrs yn gweithredu'n annibynnol ar y Llywodraeth.


Mae gan isadrannau polisi Llywodraeth Cymru berthynas waith agos â staff Uned Tribiwnlysoedd Cymru a phe bai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru neu, yn wir, Bennaeth Uned Tribiwnlysoedd Cymru yn gofyn am gymorth, byddem wrth gwrs yn rhoi cymorth rhesymol lle bynnag y bo modd.

Ym mis Mawrth, rhoddodd Uned Tribiwnlysoedd Cymru gymorth i dribiwnlysoedd Cymru symud yn gyflym i gynnal gwrandawiadau o bell, drwy gynadledda dros y ffôn neu fideo-gynadledda, ac o ganlyniad maent wedi gallu cynnal a pharhau â mwyafrif y gwrandawiadau yn unol â'r cynllun. Mae'r Llywydd, aelodau tribiwnlysoedd ac Uned Tribiwnlysoedd Cymru yn myfyrio ar arfer gorau i sicrhau y gellir parhau â hyn.

Rydym yn gadarn o'r farn bod y dadleuon o blaid newid cyfansoddiadol a datganoli cyfiawnder a amlinellwyd yn gynhwysfawr gan y Comisiwn Cyfiawnder yng Nghymru, ac a ategwyd gan y cyfoeth o dystiolaeth yn ei adroddiad, wedi'u cryfhau gan yr amgylchiadau eithriadol presennol.

Hyderaf fod y wybodaeth bellach yr wyf wedi ei darparu o gymorth i'r Pwyllgor ac i'w ymchwiliad.

Dymuniadau gorau



**MARK DRAKEFORD**

**<u>Rhaglen Waith Trawsnewid Cyfiawnder</u>**

| ***Llif gwaith*** | ***Y Blaenoriaethau Presennol:*** |
|---|---|
| **Mynediad at gyfiawnder** | Ymrwymiadau o fewn cynllun gweithredu pum mlynedd Llywodraeth Cymru, sef *Cynllun Gweithredu o ran Gwybodaeth a Chyngor* (a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2016) i:<br>• sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid grant ar gyfer gwasanaethau cyngor ar les cymdeithasol sydd wedi'u cynllunio'n strategol ac wedi'u hintegreiddio ledled Cymru;<br>• gweithredu Fframwaith Ansawdd Gwybodaeth a Chyngor Llywodraeth Cymru gan roi mynediad i fwy o bobl at wasanaethau cynghori â sicrwydd ansawdd; a<br>• hyrwyddo addysg gyfreithiol gyhoeddus fel ffordd o helpu pobl i gael gwell dealltwriaeth o'u hawliau unigol. |
| **Cyfiawnder sifil a gweinyddol** | Diwygio trefniadau gweithredol y tribiwnlysoedd datganoledig, gan gynnwys sefydlu system gwynion a disgyblaeth i farnwyr.<br><br>Adolygu (drwy brosiect Comisiwn y Gyfraith) y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer y tribiwnlysoedd datganoledig, system apelio'r tribiwnlysoedd, a'r achos dros symud i un tribiwnlys haen gyntaf - gan ragweld Bil yn y Chweched Senedd.<br><br>Paratoi ar gyfer effaith diwygiadau i'r Ddeddf Iechyd Meddwl ar faich achosion y Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl.<br><br>Cynigion ar gyfer gweithredu'r argymhelliad y dylai Uned Tribiwnlysoedd Cymru fod â mwy o annibyniaeth strwythurol. |

| | |
|---|---|
| **Cyfiawnder troseddol** | Glasbrint ar Droseddwyr Benywaidd (gan gynnwys mynd ar drywydd canolfan breswyl a darpariaeth Safleoedd Cymeradwy).<br><br>Glasbrint ar Gyfiawnder Ieuenctid.<br><br>Cytundeb Partneriaeth ar Iechyd Carcharorion: mae'n cynnwys ffrydiau gwaith wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru ar iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau mewn carchardai a rheoli meddyginiaethau. Mae hyn yn gysylltiedig â'n gwaith gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi ar y cytundeb partneriaeth sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl a rheoli meddyginiaethau.<br><br>Fframwaith i gefnogi newid cadarnhaol i'r rhai sydd mewn perygl o droseddu yng Nghymru, 2018-2023.<br><br>Cael gwared ar yr amddiffyniad “cosb resymol”.<br><br>Cyflwyno argymhellion adolygiad David Hanson o ddysgu ar gyfer troseddwyr.<br><br>Arwain cyfeiriad strategol a gweithrediad Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, sy'n cynnwys amcan i “ddwyn cyflawnwyr trais i gyfrif a rhoi cyfleoedd iddynt newid eu hymddygiad gyda phwyslais ar ddiogelwch dioddefwyr.”<br><br>Y fframwaith strategol cydweithredol - Lletya Troseddwyr Cymru. Mae Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Prawf a Charchardai Ei Mawrhydi yng Nghymru wedi ymrwymo i fabwysiadu dull strategol cydweithredol i atal digartrefedd i bob troseddwr o Gymru a mynd i'r afael â hynny. |
| **Cyfiawnder teuluol** | Lleihau nifer y plant mewn gofal.  Mae'r rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant yn cefnogi awdurdodau lleol i gyflawni eu cynlluniau o ran y disgwyliad i leihau nifer y plant mewn gofal. |

| | |
|---|---|
| | Datblygu fframwaith canlyniadau cyffredin ar gyfer holl wasanaethau Reflect ledled Cymru. Defnyddir y fframwaith hwn i roi data cenedlaethol i Lywodraeth Cymru a fydd yn ei galluogi i ddadansoddi tueddiadau.<br><br>Dadansoddiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2015, sy'n cael ei wneud gan Brifysgol De Cymru.<br><br>Mae'r Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol ar waith. |
| **Sector y gyfraith: economi, addysg a sgiliau** | Cymorth busnes i gwmnïau cyfreithiol a siambrau, gan gynnwys mewn ymateb i effeithiau Covid-19 drwy'r Gronfa Cadernid Economaidd.<br><br>Datblygiad Fframwaith Cyfreithwyr newydd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar gyfer caffael gwasanaethau cyfreithiol yng ngwasanaeth cyhoeddus Cymru. Rhagwelir y bydd yn cael ei ddyfarnu ac ar gael i'w ddefnyddio erbyn 1 Rhagfyr 2020.<br><br>Dyfnhau perthnasoedd â'r sefydliadau allweddol yn y sector cyfreithiol - gan gynnwys cwmnïau cyfreithiol, Cymdeithas y Gyfraith, y Bar, CILEx, ysgolion y gyfraith - er mwyn cydweithio i archwilio: effaith barhaol debygol Covid-19 ar sector y gyfraith; anghenion newidiol a chynaliadwyedd ymarfer cyfreithiol yng Nghymru; a chreu gweledigaeth ar gyfer dyfodol ymarfer cyfreithiol yng Nghymru.<br><br>Gan adeiladu ar y buddsoddiad o £5.6 miliwn gan Brifysgol Abertawe a Llywodraeth Cymru yn TechCyfreithiol yn Ysgol y Gyfraith Hillary Rodham Clinton, i weithio gyda chyrff ac unigolion allweddol i ddefnyddio technolegau newydd, seilwaith TG a chysylltedd ym musnes ymarferwyr, yn enwedig yn ardaloedd gwledig ac ôl-ddiwydiannol Cymru.<br><br>Mae'r broses o sefydlu Cyngor Cyfraith Cymru wedi bod yn llawer arafach na'r disgwyl, oherwydd bod gan Lywodraeth Cymru a darpar gyfranogwyr fel ei gilydd flaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd. |

Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

Jeremy Miles AS
Y Cwnsler Cyffredinol

22 Hydref 2020

Annwyl ddau

**Gwneud i Gyfiawnder weithio yng Nghymru**

Diolch am ddod i'n cyfarfod ar 12 Hydref 2020 i drafod materion sy'n berthnasol i'n hymchwiliad i **Wneud i Gyfiawnder weithio yng Nghymru**.

Rydym yn edrych ymlaen at dderbyn y wybodaeth bellach y gwnaethoch gytuno i'w rhannu â ni ym mharagraffau 11 a 94 o'r trawsgrifiad: sef, eich Rhaglen Waith sy'n amlinellu'r pum ffrwd waith barhaus i weithredu argymhellion Comisiwn Thomas a chadarnhad o'r wybodaeth a'r data sydd ar gael ynghylch perfformiad llysoedd Cymru o gymharu â'r llysoedd yn Lloegr, gan gynnwys asesiad Llywodraeth Cymru o'r hyn a welir.

Rydym hefyd yn croesawu eich bwriad i rannu dangosfwrdd o ddata ar gyfiawnder yng Nghymru yn ehangach maes o law (paragraffau 73 a 74 o'r trawsgrifiad) a byddem yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn ôl y digwydd.

Ni wnaethom drafod rhai materion yn ystod y sesiwn, ac felly byddem yn croesawu eich ymateb i'r cwestiynau a ganlyn:

1. Pa sylwadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gwneud i Lywodraeth y DU ynghylch effaith pandemig COVID-19 ar ddarparu cyfiawnder yng Nghymru?

2. Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i'r Senedd am y broses o gydweithio â Llywodraeth y DU er mwyn rheoli adferiad y system gyfiawnder yn dilyn y pandemig?

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565

3. Yn wyneb y sylwadau a wnaed gan randdeiliaid cyfiawnder yn adroddiad Canolfan Llywodraethiant Cymru, 'Justice at the Jagged Edge in Wales' – sef na allwch chi graffu ar yr hyn na wyddoch sy'n digwydd – sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y cyhoedd a'r Senedd yn ymwybodol o waith Llywodraeth Cymru ym maes cyfiawnder?

4. Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i'r Senedd am ei hymgysylltiad â Gweinidogion ac adrannau Llywodraeth y DU, ynghyd â chyrff cyfiawnder heb eu datganoli ar wella'r modd y sicrheir cyfiawnder yng Nghymru?

5. Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ar wella tryloywder ar wariant cyffredinol ar y system gyfiawnder yng Nghymru?

6. Sut fydd Llywodraeth Cymru yn adrodd ynghylch ei gwariant ar gyfiawnder, ac yn galluogi'r Senedd i ystyried y gwariant hwn fel rhan o'r gwaith craffu ar y gyllideb?

7. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i farn Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru y dylai Uned Tribiwnlysoedd Cymru gael statws tebyg i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, ac na ddylai hynny aros am gwblhau gwaith Comisiwn y Gyfraith?

8. Sut y mae Uned Tribiwnlysoedd Cymru yn monitro hygyrchedd Tribiwnlysoedd Cymru, gan gynnwys cydraddoldebau, y defnydd o'r Gymraeg a phrofiad ymgyfreithwyr drostynt eu hunain?

9. Sut y mae Uned Tribiwnlysoedd Cymru yn monitro effaith pandemig COVID-19 ar berfformiad a hygyrchedd Tribiwnlysoedd Cymru? A fydd data'n cael eu cyhoeddi ar gynnal gwrandawiadau o bell?

10. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i baratoi Tribiwnlysoedd Cymru ar gyfer yr adferiad yn dilyn COVID-19?

Byddwn yn ddiolchgar o dderbyn y wybodaeth bellach, a'ch ymateb i'r cwestiynau ychwanegol hyn, cyn gynted ag y bo modd.

Yn gywir



**Mick Antoniw AS**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon